# **ADOLYGIAD O YSTADEGAU CYDRADDOLDEB**: Chwefror 2024

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon bwrw cipolwg dros gyfres o ddangosyddion allweddol ynghylch cydraddoldeb ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ac mae’n cyflwyno’r ystadegau diweddaraf sydd ar gael ac yn darparu rhywfaint o sylwebaeth a dadansoddiad ynghylch beth mae’r data yn ei ddangos. Un o’i phrif ddibenion yw deall amrywiaeth poblogaeth Abertawe, sut mae hynny wedi newid a (chyn belled ag y bo modd) beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Trwy ganolbwyntio ar y nodweddion gwarchodedig a ddisgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2020, bydd hyn hefyd yn hysbysu ac yn ategu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2024-28.

Mae’r ddogfen yn ystyred y nodweddion canlynol sydd wedi’u rhestru yn y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Oedran
2. Anabledd
3. Ailbennu rhywedd
4. Priodas a phartneriaeth sifil
5. Beichiogrwydd a mamolaeth
6. Hil
7. Crefydd neu gred
8. Rhyw
9. Cyfeiriadedd rhywiol.

Ar dudalen 2, ceir tabl yn cynnig crynodeb cyffredinol yn dangos y dangosyddion poblogaeth allweddol diweddaraf, a chynhwysir y wybodaeth ddilynol mewn penodau ar wahân ynghylch pob nodwedd (i’r graddau y mae hynny ar gael):

- Amlinelliad o’r **ffynonellau data** perthnasol sydd ar ynghylch y nodwedd
- Crynodeb o’r **ystadegau allweddol** sydd ar gael ynghylch Abertawe a chymariaethau cenedlaethol
- Unrhyw **amrywiadau lleol** yn Abertawe, er enghraifft, trwy gyfrwng data’r Cyfrifiad
- Awgrym o **newid dros amser** (o’r ffynonellau data a ddefnyddir)
- **Tueddiadau posibl yn y dyfodol**, os gellir eu nodi
- **Casgliad** – crynodeb cyffredinol o’r hyn sy’n cael ei ddatgan gan y data a negeseuon allweddol.

Mae ffeil data neu lyfr gwaith ategol, sy'n dwyn ynghyd y data allweddol a drafodwyd yn yr adolygiad hwn, hefyd ar gael.

Dyma'r ail argraffiad o'r Adolygiad Ystadegau Cydraddoldeb; bwriedir cynnwys gwybodaeth ddiweddaredig ac unrhyw ffynonellau data newydd yn fersiynau’r dyfodol o’r adolygiad a’r ffeil data.

*Os hoffech chi unrhyw wybodaeth ystadegol ychwanegol am nodweddion poblogaeth Abertawe, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau eraill am yr ystadegau hyn, cysylltwch â:*

**Chyngor Abertawe – Gwybodaeth, Ymchwil a SGD**
Rhif ffôn: (07970) 610583. E-bost: research@swansea.gov.uk
Yr Uned Cyflawni Strategol, Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, Y Ganolfan Ddinesig, Abertawe, SA1 3SN.

**Tabl 1 (Crynodeb)**:
**Dangosyddion allweddol poblogaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig, Abertawe a Chymru** [1]

| Nodwedd: | **Disgrifiad** | **Abertawe** | **Cymru** | **Poblogaeth cyfeirio** | **Ffynhonnell a dyddiad** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | 0 - 15 mlwydd oed | 17.1% | 17.6% | Yr holl breswylwyr arferol *(Abertawe: 241,300)* | Amcangyfrifon canol blwyddyn 2022, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) |
| | 16 - 64 | 62.3% | 60.9% | | |
| | 65 oed neu'n hŷn | 20.6% | 21.5% | | |
| | 85 oed neu'n hŷn | 2.8% | 2.7% | | |
| **Anabledd** | Sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 22.4% | 21.6% | Yr holl breswylwyr arferol | Cyfrifiad 2021, SYG |
| | Anabledd craidd y Ddeddf Cydraddoldeb neu anabledd sy'n cyfyngu ar allu i weithio | 28.3% | 28.5% | Pob person ifanc rhwng 16 a 64 oed | Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2022, SYG |
| | *Wedi cofrestru'n anabl:* ag Anabledd Dysgu | 0.5% | 0.4% | Yr holl bobl | Cofrestrau (Mawrth 2022), Llywodraeth Cymru |
| | Anabledd corfforol/ar y synhwyrau | 1.2% | 1.5% | | |
| | Hawlwyr budd-daliadau anabledd | 13.8% | 12.7% | Yr holl bobl | DWP, Awst 2022 [2] |
| **Ailbennu rhywedd a hunaniaeth** | Yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 93.1% | 93.3% | Preswylwyr arferol 16 oed ac yn hŷn | Cyfrifiad 2021, SYG |
| | Yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 0.4% | 0.4% | | |
| | Heb ateb | 6.5% | 6.3% | | |
| **Statws priodas a phartneriaeth sifil** [3] | Erioed wedi priodi neu erioed wedi bod mewn psg | 39.9% | 37.2% | Preswylwyr arferol 16 oed ac yn hŷn | Cyfrifiad 2021, SYG |
| | Yn briod neu mewn psg | 41.2% | 43.8% | | |
| | Wedi gwahanu | 2.2% | 2.0% | | |
| | Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil gofrestredig wedi'i diddymu | 9.7% | 9.9% | | |
| | Yn weddw | 7.0% | 7.1% | | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Cyfradd beichiogi | 65.3 | 70.7 | Cyf / 1,000 ben 15-44 | Ystadegau beichiogi a genedigaethau yr SYG, yn cynnwys cyfraddau, 2021 [4] |
| | Cyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol (CFG) | 46.4 | 51.7 | | |
| | Cyfradd genedigaethau fras | 8.7 | 9.3 | C / 1,000 p | |
| **Hil – poblogaeth yn ôl grŵp ethnig** | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig/Cymreig | 4.4% | 2.9% | Yr holl breswylwyr arferol | Cyfrifiad 2021, SYG |
| | Du/Du Prydeinig/Cymreig | 1.2% | 0.9% | | |
| | Grwpiau cymysg/lluosog | 1.6% | 1.6% | | |
| | Gwyn | 91.4% | 93.8% | | |
| | Grŵp ethnig arall | 1.4% | 0.9% | | |
| **Crefydd** | Dim crefydd | 47.3% | 46.5% | Yr holl breswylwyr arferol | Cyfrifiad 2021, SYG |
| | Cristion | 41.3% | 43.6% | | |
| | Pob crefydd arall (cyfanswm) [5] | 4.7% | 3.6% | | |
| | Heb ateb | 6.7% | 6.3% | | |
| **Rhyw** | Benyw | 50.5% | 51.0% | Yr holl breswylwyr arferol | Amcangyfrifon canol blwyddyn 2022, SYG |
| | Gwryw | 49.5% | 49.0% | | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Syth neu heterorywiol | 88.8% | 89.4% | Preswylwyr arferol 16 oed ac yn hŷn | Cyfrifiad 2021, SYG |
| | Cyfeiriadedd LHD+ | 3.4% | 3.0% | | |
| | Heb ateb | 7.8% | 7.6% | | |

**Nodiadau:**

1. Cyfeiriwch at y penodau dilynol i weld troednodiadau mwy cyflawn ar gyfer y ffynonellau data unigol.
2. Mae budd-daliadau anabledd yn cynrychioli swm y mathau canlynol o fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau: Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Lwfans Gweini (i bobl sydd dros 65 mlwydd oed) a Thaliad Annibynniaeth Personol (sydd, ers 2013, wedi disodli'r DLA i hawlwyr newydd sy'n 16-64 mlwydd oed). Mae'r data hwn yn ymwneud ag Awst 2022, gyda chyfraddau'n deillio o amcangyfrifon poblogaeth canol 2021 (SYG).
3. Statws priodasol: psg = partneriaeth sifil gofrestredig. Mae'r bobl yn y categori 'Wedi gwahanu' yn parhau i fod yn briod yn gyfreithiol neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol. Mae'r categori 'Gweddw' hefyd yn cynnwys partner partneriaeth sifil sy'n goroesi.
4. Caiff ystadegau cyfraddau beichiogiadau, ffrwythlondeb a genedigaethau eu mynegi fel cyfraddau: a.) Mae'r cyfraddau Beichiogi a Ffrwythlondeb yn cynrychioli nifer yr achosion fesul 1,000 o fenywod rhwng 15 a 44 oed; b.) Y Gyfradd Genedigaethau Fras yw nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o bobl o bob oedran.
5. Mae'r 'Pob crefydd arall (cyfanswm)' yn cynrychioli swm y categorïau: Bwdhaidd; Hindŵaidd; Iddewig; Moslemaidd; Sicaidd; Crefydd arall.

1. **Oedran**

*Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), mae'r nodwedd hon yn ymwneud â'r canlynol: 'Unigolyn sy'n perthyn i oedran penodol (er enghraifft, pobl sy'n 32 mlwydd oed) neu'n perthyn i ystod oedran (er enghraifft, pobl 18 – 30 mlwydd oed).'*

**Ffynonellau data**

- Caiff data poblogaeth yn ôl oedran ei gynhyrchu'n flynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac mae ar gael yn amyrwio o lefel ardaloedd bychan i'r lefel genedlaethol. Mae'r data hyn yn hanfodol o safbwynt dadansoddiad demograffig, a chânt eu defnyddio'n helaeth at ddibenion tagedu adnoddau, cynllunio gwasanaethau ac fel enwadur ar gyfer dangosyddion seiliedig ar boblogaeth. Mae'n ystadegyn gwladol cadarn.
- Mae amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (SYG) ar lefel awdurdodau lleol (ALlau), yn ôl blwyddyn oedran unigol a chyfanredol, ar gael ar gyfer canol 2022. Cyhoeddwyd y rhain ar 23 Tachwedd 2023. Cyfrifwyd yr amcangyfrifon poblogaeth drwy gymryd y Cyfrifiad dengmlwyddol fel meincnod (roedd yr un diweddaraf yn 2021) a defnyddio data cofrestru genedigaethau a marwolaethau blynyddol, ynghyd â llifoedd amcangyfrifedig o fudo mewnol (symudiadau i/o rywle arall yn y DU) a mudo rhyngwladol (i/o'r tu allan i'r DU). Ochr yn ochr â'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer canol 2022, cyhoeddodd y SYG amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd 2012 to 2021 yn gynwysedig.
- Mae amcangyfrifon ardaloedd bach blynyddol (e.e. wardiau, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach) yn tueddu i ddilyn sawl mis yn ddiweddarach; fodd bynnag, y data diweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ardaloedd bach yw amcangyfrifon Cyfrifiad 2021.
- Cyhoeddir amcanestyniadau poblogaeth swyddogol ar lefel ALlau ac ar sail tueddiadau, gan gynnwys yn ôl oedran, gan Lywodraeth Cymru bob rhyw dair blynedd ar hyn o bryd. Cynhyrchwyd yr amcanestyniadau diweddaraf (yn seiliedig ar 2018) yn 2020, ac ni ragwelir unrhyw amcanestyniadau sy'n ymgorffori canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn y dyfodol agos.

**Ystadegau allweddol**

- Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf y SYG ar gyfer Dinas a Sir Abertawe (ar gyfer 2022) yw 241,300 (wedi'i dalgrynnu); yr ail boblogaeth uchaf o'r 22 o ardaloedd ALl yng Nghymru (y tu ôl i Gaerdydd ac ychydig ar y blaen i Rhondda Cynon Taf) a bron 8% o gyfanswm Cymru (3,131,600).
- O fewn cyfanswm poblogaeth Abertawe, mae 41,200 yn blant 0-15 oed (17.1% o'r cyfanswm, sy'n is na Chymru 17.5% a'r Cymru a Lloegr 18.5%); mae 150,400 (62.3%) o 'oedran gweithio' (16-64 oed) (Cymru 60.9%, Cymru a Lloegr 62.8%); ac mae 49,700 (20.6%) yn 65+ oed (Cymru 21.5%, Cymru a Lloegr 18.8%).
- Oedran canolrifol poblogaeth Abertawe (y canolbwynt oedran lle mae hanner y boblogaeth yn hŷn a hanner yn iau) yw 41.2 mlwydd oed (2022); yn is na'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru (42.9) ond uwchben Cymru a Lloegr (40.6). Y rheswm dros y ffigwr is yn Abertawe (na Chymru) yn rhannol yw'r gyfran uwch o fyfyrwyr preswyl a phobl eraill 16-24 oed.
- Mae Tabl 2 yn crynhoi amcangfyrifon 2022 yn ôl grŵp oedran penodol yn Abertawe, Cymru a'r Cymru a Lloegr. Mae rhagor o ddadansoddiaau manwl ar gael yn nalen 1a y ffeil data.

**Tabl 2**: Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran (canol 2022)

| Oedran y bobl: | Abertawe | % o'r cyfanswm | % Cymru | % Cymru a Lloegr |
|---|---|---|---|---|
| 0-4 | 11,400 | 4.7 | 4.9 | 5.3 |
| 5-15 | 29,800 | 12.4 | 12.7 | 13.1 |
| 16-24 | 31,100 | 12.9 | 10.4 | 10.6 |
| 25-44 | 59,300 | 24.6 | 24.3 | 26.6 |
| 45-64 | 59,900 | 24.8 | 26.2 | 25.6 |
| 65-74 | 25,400 | 10.5 | 11.3 | 9.7 |
| 75+ | 24,300 | 10.1 | 10.2 | 9.1 |
| *Cyfanswm* | *241,300* | *100* | *100* | *100* |

**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon Canol-blwyddyn 2022 (wedi'u talgrynnu), Uned Amcangyfrifon Poblogaeth, ONS.
© Hawlfraint y Goron 2023. **Sylwer**: nid yw amcangyfrifon poblogaeth y DU ar gyfer canol 2022 ar gael eto (fel ym mis Chwefror 2024)

### Amrywiadau lleol

- Yn Abertawe, mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran Cyfrifiad 2021 yn dangos y cyfrannau uchaf o blant (0-15 oed) yn wardiau Townhill (27.5%) a Phenderi (25.5%); yn rhannol oherwydd cyfraddau genedigaethau uwch yn yr ardaloedd. Mae cyfrannau ar gyfer Penlle'r-gaer a Llansamlet hefyd yn uwch na 20%; sydd o bosib yn adlewyrchu datblygiad tai diweddar a phresenoldeb teuluoedd ifanc.
- Wardiau'r Glannau, Uplands, Y Castell a Gŵyr sydd â'r canrannau isaf rhwng 0-15 oed; mae'r tair cyntaf yn ardaloedd a chanddynt fwy o broffil oedolion ifanc (e.e. 16-24 oed) gan gynnwys myfyrwyr.
- Uplands, Y Glannau a'r Castell yw'r unig wardiau yn Abertawe hefyd lle mae dros 70% o'u poblogaeth o oedran gweithio (16-64 oed); tra bod y ffigurau isaf (tua 50%) ym Mhennard, Mayals a Llandeilo Ferwallt.
- Yn achos y boblogaeth sy'n 65 mlwydd oed neu'n hŷn, ceir y cyfraddau uchaf yn ardaloedd de-orllewin Abertawe a'r Gŵyr; mae'r canrannau isaf yn y ddinas a'r ardaloedd trefol amgylchynnol.
- Mae ystadegau poblogaeth yn ôl grwpiau oedran eang ar gyfer bob ward yn Abertawe ar gael yn y ffeil data – dalen 1c.

### Newid dros amser

- Mae cyfanswm poblogaeth amcangyfrifedig Abertawe wedi tyfu 14,500 (+6.4%) yn fras dros 25 mlynedd (1997-2022), ond wedi gostwng yn llai sydyn, 2,100 (-0.9%), yn ystod y deng mlynedd diwethaf (2012-2022).
- Wrth ganolbwyntio ar y cyfnod deng mlynedd hwnnw, mae'r darlun yn wahanol ar gyfer pob un o'r grwpiau oedran bras. Ar gyfer plant (0 i 15 oed) mae gostyngiad net ymylol wedi bod rhwng 2012 a 2022 (-200 neu 0.6%), gyda'r boblogaeth oedran gweithio (16-64 oed) yn disgyn o gyfradd uwch (-3,000 neu 1.9%).
- Fodd bynnag, mae cynnydd mwy sydyn wedi bod yn y deng mlynedd hyn yn nifer y bobl 65+ oed, i fyny 5,300 (+11.9%). Mae'r gyfran fawr a chynyddol o bobl dros 65 oed yn bennaf oherwydd dau ffactor; yn gyntaf mae gwelliannau cyffredinol mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw'n hwy; ac yn ail y ffaith bod carfan fawr y rheini a anwyd yn y cyfnod o gynnydd mawr mewn genedigaethau ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio.
- O fewn y ffigur hwnnw, mae'r cynnydd canrannol mwyaf wedi bod yn y carfannau 70-74 oed (+21.5%) ac 75-79 oed (+22.6%).

- Mae oedran canolrifol poblogaeth Abertawe wedi cynyddu yn ystod y deng mlynedd diwethaf, o 40.2 yn 2012 i 41.2 yn 2022, sydd fwy neu lai'n unol â thueddiadau cyfatebol yng Nghymru (+1.2 oed) a'r Cymru a Lloegr (+0.9).

**Tueddiadau'r dyfodol**

- Rhagamcanodd yr amcanestyniadau poblogaeth swyddogol diweddaraf (Llywodraeth Cymru, 2018) y byddai cyfanswm poblogaeth Abertawe yn codi i 254,400 erbyn 2028 ac i 264,800 erbyn 2043. Mae'r amcanestyniadau hyn sy'n seiliedig ar dueddiadau'n dangos canlyniadau a ragwelir yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo; fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon a thueddiadau cyn Cyfrifiad 2021.
- Mae'r effeithiau a ragwelir yn wahanol yn ôl oedran yn y ffigurau hyn, gyda'r newid a ragwelir yn nifer y plant (0-15 oed) yn ddibwys dros y cyfnod 2018-2028. Rhagwelir twf o oddeutu 3,000 (+1.9%) yn y boblogaeth oedran gweithio (16-64 oed); yn is na'r cynnydd a ragwelir yng nghyfanswm y boblogaeth sef 7,900 (+3.2%) rhwng 2018 a 2028.
- Fodd bynnag, mae'r lefelau mwyaf o dwf a ragwelir hyd at 2028 yn y boblogaeth hŷn (65+ oed); gyda'r ffigyrau'n dangos cynnydd o oddeutu 5,100 (+10.5%) i 58,800.
- Cynhyrchir amcanestyniadau amrywiol hefyd sy'n dangos effaith newid y rhagdybiaethau hyn. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried yr un o'r ffigurau hyn fel rhagfynegiad. Maent yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar gyfres o amcangyfrifon a rhagdybiaethau, gan ddefnyddio data sylfaen 2013-2018 i bob pwrpas, y mae elfennau mawr ohonynt bellach yn destun adolygiad yn dilyn canlyniadau diweddaraf y Cyfrifiad. Mae llawer o ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol (na ellir eu rhagweld yn aml) a fydd yn y pen draw yn cael effaith gronnus ar newid yn y boblogaeth yn y dyfodol.
- Mae amcanestyniadau poblogaeth ôl-Gyfrifiad 2021 dim ond wedi'u cyhoeddi ar sail genedlaethol dros dro hyd yn hyn. Mae'n annhebygol y daw unrhyw amcanestyniadau newydd ar lefel awdurdod lleol i'r golwg cyn 2025.

**Casgliadau**

- Abertawe sydd â'r ail boblogaeth uchaf o awdurdodau lleol Cymru o hyd a'r pumed dwysedd poblogaeth uchaf, ond nid yw'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad yn awgrymu fawr ddim newid yn y cyfansymiau cyffredinol yn ystod y deng mlynedd diwethaf.
- O ran proffil oedran, ar hyn o bryd mae gan Abertawe gyfran uwch (na chyfartaledd Cymru a'r DU) o bobl ifanc 16-24 oed, sy'n adlewyrchu'n rhannol y nifer uchel o fyfyrwyr preswyl, ond cyfrannau ychydig yn is o'r rheini rhwng 0-15 oed a 45-64 oed.
- Dros y deng mlynedd diwethaf (2012 i 2022), mae'r rhan fwyaf o dwf poblogaeth Abertawe wedi bod yn nifer y bobl 65 oed a throsodd; tueddiad sydd (tra'n disgwyl cyfres newydd o amcanestyniadau poblogaeth Cyfrifiad 2021) yn debygol o barhau yn y deng mlynedd nesaf.

## 2. Anabledd

*'Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddo/ganddi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol beunyddiol.' (EHRC)*

### Ffynonellau data

- Mae nifer o ffynonellau data a mesurau dirprwyol y gellir eu defnyddio i ddarparu darlun o anabledd fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Mae data'r cyfrifiad yn darparu prif ffynhonnell ystadegau ar anabledd. Yng Nghyfrifiad 2021, pobl anabl yw'r rheini a *asesodd eu gweithgareddau beunyddiol fel rhai sydd wedi'u cyfyngu gan gyflyrau corfforol neu iechyd meddwl neu salwch hirdymor.* Mae'r diffiniad hwn yn bodloni'r safon gytûn ar gyfer mesur anabledd ac mae'n unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.
- Fel yn achos llawer o newidynnau'r Cyfrifiad, gellir gwneud rhagor o ddadansoddi neu groes-dablu yn ôl oedran (e.e. oedran gweithio, 16-64) a nodweddion poblogaeth eraill. Gall y Cyfrifiad ddarparu data ar lefel leol iawn hefyd, a data cysylltiedig ynghylch iechyd cyffredinol a phobl yn darparu gofal di-dâl.
- Mae amcangyfrifon mwy diweddar ar lefel awdurdodau lleol ynghylch anableddau hefyd ar gael trwy Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS) yr ONS. Bydd yr arolwg o sampl yn holi pobl 16-64 mlwydd oed am eu gweithgarwch economaidd a rhesymau dros anweithgarwch. Fel yn achos y Cyfrifiad, bydd atebwyr yn hunanarfarnu , felly nid yw data yn seiliedig ar asesiadau meddygol. Mae data'r APS yn amcangyfrif y nifer o bobl sydd ag anabledd, naill aiar sail diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (anabl craidd y Ddeddf Cydraddoldeb), neu'r sawl sydd ag anabledd neu broblem iechyd tymor hir sy'n effeithio ar y gwaith y gallant ei wneud – 'anabledd sy'n cyfyngu ar waith' (mae hynny'n cynnig awgrym o'r nifer o bobl sy'n anabl yn y gweithlu).
- Bydd ystadegau crynodol ynghylch pobl sydd ag anableddau corfforol neu ar y synhwyrau (yn cynnwys nam ar y golwg a'r clyw), ac anableddau dysgu (yn ôl math o lety ac oedran), yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cofrestrau o bobl sydd ag anableddau corfforol neu ar y synhwyrau yn cynnwys pawb sydd wedi'u cofrestru o dan Adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948. Fodd bynnag, mae cofrestru yn wirfoddol, a bydd yn cynnwys pobl sy'n cyrchu gwasanaethau awdurdodau lleol yn unig. Felly, bydd y ffigurau yn amcangyfrifiad rhy isel o'r nifer o bobl sydd ag anableddau corfforol neu ar y synhwyrau. Bydd casglu a chyhoeddi data cofrestrau anabledd yn ei fformat presennol yn dod i ben ar ôl y datganiad diweddaraf (Chwefror 2023).
- Caiff data eu diweddaru'n rheolaidd hefyd am hawlwyr budd-daliadau cysylltiedig ag anableddau sy'n cael eu gweinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), sef Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini (ar gyfer pobl dros 65 mlwydd oed) a Thaliad Annibynniaeth Personol (sydd, ers 2013, wedi disodli Lwfans Byw i'r Anabl yn achos hawlwyr newydd 16-64 mlwydd oed). Mae'r data yn cyfrif y nifer o bobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd y mae arnynt angen cymorth â'u gofal personol neu sydd ag anghenion goruchwylio, a/neu sy'n cael trafferth mynd o gwmpas.
- Fodd bynnag, gall data am fudd-daliadau newid oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â sut cânt eu gweinyddu, a cheir cyfyngiadau ar y defnydd o'r data hynny at ddibenion dadansoddi. Ni wnaiff nifer hawlwyr budd-daliadau i bobl anabl adlewyrchu pawb sydd ag anabledd o riedrwydd; bydd pobl sy'n credu nad oes arnynt angen cymorth â gofal personol neu symudedd, felly ni fyddant yn ymgeisio, a bydd hawliadau pobl eraill wedi cael eu gwrthod oherwydd ystyrir nad yw eu hanabledd yn ddigon difrifol.

**Ystadegau allweddol**

- Yng Nghyfrifiad 2021, roedd bron chwarter o breswylwyr Abertawe'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (roedd gweithgareddau beunyddiol yn cyfyngu 'llawer' neu 'ychydig' arnynt), sef 53,484 o bobl neu 22.4% o'r cyfanswm; ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 21.6% ac yn uwch eto na Chymru a Lloegr (CaLl) ar 17.5%. Yng Nghyfrifiad 2021, nid yw 185,006 o bobl (77.6% o breswylwyr Abertawe) yn anabl.
- Mae data'r APB ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2022 yn awgrymu bod ffigur tybiedig o 44,300 o bobl yn Abertawe rhwng 16-64 oed, 28.3% o'r cyfanswm, yn rhai ag anabledd craidd yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb (DC) neu a chanddynt anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio - yn agos i Gymru (28.5%) ond yn uwch na'r DU (24.3%). Yn Abertawe, mae'r gyfran ychydig yn uwch ar hyn o bryd i ddynion (29.4%) na merched (27.2%), er bod y gwahaniaeth hwn o fewn cyfyngau hyder o 95%. Yn yr arolwg, nid yw 111,800 (71.5%) o bobl 16-64 oed yn Abertawe yn anabl (Cymru 70.8%; Y Deyrnas Unedig 74.9%.
- Mae nifer a chyfradd uwch o bobl 16-64 yn Abertawe yn cael eu hystyried yn anabl craidd yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb (42,400/27.1%) na'r nifer a'r gyfradd yr ystyrir bod ganddynt anabledd sy'n cyfyngu ar allu i weithio (35,700/22.8%).
- Mae gweithgarwch economaidd yn sylweddol is yn achos sy'n anabl. Yn Abertawe, y gyfradd gweithgarwch economaidd ar gyfer pobl o oedran gweithio sydd yn y grŵp anabledd 'craidd' yn ôl y DC neu mae eu hanabledd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio yw 63.3% (Rhagfyr 2022), tra bod y ffigur i'r rheini nad ydynt yn anabl yn 87.3%. Mae'r gyfradd gyflogaeth hefyd yn is, sef 55.2% ar gyfer pobl anabl o'i gymharu ag 84.4% ar gyfer y rheini nad ydynt yn anabl. Mae'r gyfradd ddiweithdra yn sylweddol uwch ar gyfer pobl 16-64 oed sy'n anabl (12.9%) na'r rheini nad ydynt yn anabl (3.3%).
- Yn ôl ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru, roedd 1,108 o bobl yn Abertawe wedi'u cofrestru ag anableddau dysgu (Mawrth 2022), ac o'u plith, roedd 1,021 (92.1%) yn byw mewn lleoliadau yn y gymuned a 87 (7.9%) yn byw mewn sefydliadau preswyl. Yn achos y sawl oedd mewn lleoliadau cymunedol, roedd 56.2% o'r holl bobl oedd wedi'u cofrestru yn byw gyda rhieni neu theulu. Ym Mawrth 2022, roedd 22.8% o'r holl bobl oedd wedi'u cofrestru ag anableddau dysgu yn Abertawe yn iau nag 16 mlwydd oed, roedd 70.8% rhwng 16 a 64 mlwydd oed, ac roedd 6.4% yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn.
- Yn Abertawe, roedd 2,917 o bobl wedi'u cofrestru ag anableddau corfforol neu ar y synhwyrau ym Mawrth 2022. O blith y cyfanswm hwn, 51.5% wedi'u cofrestru â nam ar y golwg, ac o blith y rheiny, roedd gan 788 nam difrifol ar y golwg ac roedd gan 713 nam ar y golwg. O'r rheini sy'n weddill heb anabledd gweledol, roedd gan 752 o bobl (25.8%) anabledd corfforol yn unig, roedd gan 664 o bobl (22.8%) nam ar y clyw.
- Ym mis Awst 2022, roedd 32,779 o bobl yn Abertawe yn hawlio naill ai Lwfans Byw i'r Anabl (LBA), Lwfans Gweini (LG) neu Daliad Annibyniaeth Personol (PIP), sef 13.8% o gyfanswm poblogaeth Abertawe yng nghanol 2021 fel ffigur tybiedig, cyfran uwch na Chymru (12.7%) a Phrydain Fawr (8.8%).
- Mae mwy o bobl bellach yn hawlio PIP yn Abertawe na'r LBA a'r LG gyda'i gilydd. Mae'r cyfanswm, sef 18,508 o bobl (Awst 2022), yn cynrychioli 9.4% o boblogaeth 16+ Abertawe (uwch na Chymru 8.6% a Phrydain Fawr 5.7%). Yn ychwanegol, mae 6,555 o bobl (2.8% o gyfanswm poblogaeth Abertawe, o gymharu â 2.6% ar lefel Cymru a 2.0% ar lefel Prydain Fawr) yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, ac mae 7,716 o bobl yn hawlio'r Lwfans Gweini – 15.7% o boblogaeth 65+ Abertawe (Cymru 14.0%, Prydain Fawr 11.6%).

- Mae Tabl crynodeb 3 yn rhoi trosolwg o'r ffigurau pennawd ar gyfer y ffynonellau hyn, gyda'r ffynonellau a'r troednodiadau'n dangos eu gwahanol ddibenion, diffiniadau, amseru a methodoleg.

**Tabl 3**: Dangosyddion sy'n gysylltiedig ag anabledd

| Dangosydd: | **Abertawe** | **% o'r cyfanswm** | **% Cymru** | **% genedlaethol** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifiad**: anabl [1] | 53,484 | 22.4 | 21.6 | 17.5 (C&Ll) |
| **APS**: Anabledd craidd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb neu anabledd yn cyfyngu ar y gallu i weithio [2] | 44,300 | 28.3 | 28.5 | 24.3 (DU) |
| **LlC:** Cof. ALl – Anabledd dysgu [3] | 1,108 | 0.5 | 0.4 | Amh. |
| LlC: Cof ALl – anabledd corfforol/ar y synhwyrau. [4] | 2,917 | 1.2 | 1.5 | Amh. |
| | | | | |
| **Budd-daliadau DWP:** Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gweini a Thaliad Annibynniaeth Personol [5] | 32,779 | 13.8 | 12.7 | 8.8 (C&Ll) |
| Lwfans Byw i'r Anabl [6] | 6,555 | 2.8 | 2.6 | 2.0 (C&Ll) |
| Lwfans Gweini [7] | 7,716 | 15.7 | 14.0 | 11.6 (C&Ll) |
| Taliad Annibynniaeth Personol [8] | 18,508 | 9.4 | 8.6 | 5.7 (C&Ll) |

**Ffynonellau:** 1: Cyfrifiad 2021, ONS. Sylwer: ffigurau % wedi'u mynegi fel cyfran o'r holl bobl.
2: APS (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth), amcangyfrifon oedran gweithio (16-64) am y cyfnod a ddaeth i ben ym Mawrth 2022, ONS.
3-4: Cofrestrau awdurdodau lleol o bobl sydd ag anableddau, 31 Mawrth 2022 (Llywodraeth Cymru).
5-8: Data budd-daliadau anabledd DWP, Awst 2018 a phoblogaeth canol-blwyddyn 2018, ONS.
Daliwch sylw: Caiff cyfraddau (%) Abertawe, Cymru a chenedlaethol (y DU, Prydain Fawr a Chymru a Lloegr) eu mynegi fel canran o'r boblogaeth berthnasol (Cyfrifiad 2021, amcangyfrifon canol blwyddyn a data'r APB, SYG).

### Amrywiadau lleol

- Yn achos ardaloedd yn Abertawe, mae amrywiadau lleol (e.e. yn ôl ward, Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol – MSOA) yn bosibl trwy gyfrwng data'r Cyfrifiad a budd-daliadau DWP yn unig.  Caiff ffigurau APC a ffigurau am bobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl eu cyhoeddi ar lefel awdurdodau lleol yn unig.
- Yng Nghyfrifiad 2021, roedd dros 27% o'r holl bobl yn wardiau Waunarlwydd, Penderi a Townhill yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, tra bod y ffigwr hwn oddeutu 15% yn wardiau Mayals a Pontlliw a Thircoed (cyfartaledd Abertawe - 22.4%).
- Gellir gweld gwahaniaethau lleol mewn cyfraddau hawlwyr ar gyfer budd-daliadau cysylltiedig ag anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel ACEC.  O edrych ar gyfran y boblogaeth gyfan sy'n hawlio naill ai LBA, LG neu PIP (Awst 2022), mae'r ffigurau'n amrywio o tua 8% yn  ACECau 027, 030 a 031  Abertawe (ardaloedd Sgeti, Gorllewin Gŵyr a'r Mwmbwls) i dros 19% yn 019 a 011 Abertawe (ardaloedd Townhill a Phenderi).
- Ar gyfer y manteision unigol, mae'r patrymau fwy neu lai yr un fath.  Hawlir LBA o hyd gan dros 4% o gyfanswm y boblogaeth yn ACECau 011, 019 a 013 Abertawe (Penderi, Townhill a Ravenhill); mae'r cyfraddau hawlwyr LG uchaf (y boblogaeth 65+ oed) yn uwch na 20% yn 019 (Townhill) a 014 (Bôn-y-maen) Abertawe; tra bod cyfraddau hawlwyr PIP (y boblogaeth 16+ oed) yn uwch na 17% yn 019 a 011 (Townhill a Phenderi) Abertawe.  Mae'r data lleol (Awst 2022) ar gyfer pob ardal wedi'i gynnwys yn nalen 2f y ffeil.

**Newid dros amser**

- Er bod geiriad cwestiwn y Cyfrifiad wedi newid ychydig rhwng Cyfrifiadau, mae'r SYG yn ystyried bod data 2011 a 2021 ar anabledd at ei gilydd yn gymaradwy. Mae nifer y bobl sy'n anabl wedi gostwng ychydig, o 55,718 yn 2011 i 53,484 yn 2021. Fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth, syrthiodd hyn o 23.3% yn 2011 i 22.4% yn 2021.
- Yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf (2012-22), bu cynnydd o 139 (14.3%) yng nghyfanswm y bobl ar gofrestrau’r awdurdod lleol sydd ag anableddau dysgu yn Abertawe, ac mae hynny wedi gostwng ar lefel Cymru (-16.3%). O fewn y newid cyffredinol hwn, bu cynnydd o 210 neu 25.9% yn nifer y lleoliadau yn y gymuned yn Abertawe, a chafwyd gostyngiad o 71 neu 44.9% yn nifer y lleoliadau preswyl.
- Yn yr un cyfnod, mae cyfanswm y bobl sy'n anabl yn gorfforol/synhwyraidd ar gofrestrau awdurdodau lleol yn Abertawe wedi codi 297 neu 11.3%. O fewn y ffigur hwn, roedd cynnydd yn y niferoedd â nam difrifol ar eu golwg, nam ar eu golwg, byddar a thrwm eu clyw (rhwng 15-30%), ond gostyngiad yn y nifer a gofrestrwyd ag anabledd corfforol yn unig (-9% yn fras).
- Er bod angen gofal wrth ddadansoddi newid dros amser yn nifer y bobl sy’n hawlio budd-daliadau anbledd, oherwydd newidiadau yn y mathau o fudd-daliadau a chymhwyster, gall crynhoi nifer hawlwyr Lwfans Byw i’r Anabl, Lwfans Cynhaliaeth a Thaliad Byw’n Annibynnol gynnig awgrym cyffredinol. Yn y cyfnod pum mlynedd ddiweddaraf (2017-22), cynyddodd nifer yr hawlwyr LBA, LG a PIP yn Abertawe 3,945 (+13.7%); ar gyfer mathau o fudd-daliadau unigol syrthiodd nifer yr hawlwyr LBA (yn arbennig) a LG, wrth i niferoedd sy'n hawlio PIP gynyddu'n sylweddol (+57.7%).
- Dros y tymor hwy (2012 i 2022), cynyddodd cyfanswm cyfunol y rheini a oedd yn hawlio'r tri budd-dal 3,023 (+10.2%) gyda'r cwympiadau sydyn mewn hawliadau LBA (-67.9%) wedi'u gwrthbwyso gan gyflwyno PIP yn 2013, a gostyngiad mewn hawliadau LG dros y deng mlynedd (-17.5%).

**Tueddiadau’r dyfodol**

- Mae rhagweld tueddiadau’r dyfodol ynghylch anabledd ag unrhyw fath o sicrwydd yn anodd yn ei hanfod, ac yn anoddach hyd yn oed nag amcanestyniadau ynghylch y boblogaeth gyfan. Ar y naill law, byddai poblogaeth sy’n heneiddio a cyfradd gynyddol o bobl yn y grwpiau oedran hŷn yn awgrymu mwy o risg o fynychder anableddau a chyflyrau cysylltiedig; fodd bynnag, gall datblygiadau meddygol a gwelliannau posibl mewn ffyrdd o fyw liniaru hyn i ryw raddau.
- Mae data empirig neu amcangyfrifon o dueddiadau’r dyfodol o ran y boblogaeth o bobl anabl yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae porth ‘Daffodil Cyrmu’, y daeth Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol amdano yn ddiweddar, yn cyfuno gwybodaeth o wahanol ffynonellau ymchwil a amcanestyniadau poblogaeth, i ddangos newidiadau a ragwelir mewn cyflyrau iechyd ac anghenion gofal yng Nghymru yn ystod y degawdau sy’n dod. Fodd bynnag, nid yw ei statws presennol yn glir a byddai unrhyw amcanestyniadau sydd ar gael ar hyn o bryd yn seiliedig ar dueddiadau a rhagdybiaethau poblogaeth Cyfrifiad cyn 2021, fel gydag unrhyw amcanestyniadau Llywodraeth Cymru neu'r SYG ar lefel awdurdod cenedlaethol neu leol.

**Casgliadau**

- Efallai mai data anabledd yw'r mwyaf cymhleth o'r nodweddion gwarchodedig i'w dadansoddi, ac nid oes yr un ffynhonnell ystadegol yn darparu trosolwg cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae nifer o ddangosyddion ar gael a all ddarparu mesur lleol o anabledd gan gynnwys ffynonellau gweinyddol (budd-daliadau, cofrestrau'r ALlau) a ffynonellau arolwg (Cyfrifiad, yr APB).
- Y Cyfrifiad yn ôl pob tebyg yw'r mesur mwyaf perthnasol o ran diffiniad, er ei fod yn seiliedig ar hunanasesiad yn hytrach nag unrhyw ddiagnosis meddygol. Er y gall defnyddioldeb data'r Cyfrifiad gael ei beryglu gan y bwlch hir (deng mlynedd) rhwng Cyfrifiadau, mae'r data diweddaraf yn gymharol agos at y dyddiad cyfeirio (Mawrth 2021).
- O ran y mesurau sy'n seiliedig ar yr arolwg, mae tua chwarter poblogaeth Abertawe yn anabl, gyda data'r Cyfrifiad ar gyfer 2011-2021 yn dangos tuedd fach ar i lawr yn nifer y bobl anabl. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon diweddar yr APB yn dangos tuedd i'r gwrthwyneb (cynnydd) rhwng 2017 a 2022, sy'n adlewyrchu gwahaniaethau mewn methodoleg ffynhonnell a ffactorau eraill.
- Ar gyfer y mesurau gweinyddol, mae'r niferoedd a gofnodwyd (a'r canrannau) yn parhau i fod yn llawer is; sy'n dangos y gallai ceisiadau am gymorth a hawlio budd-daliadau fod yn llai na'r angen yn gyffredinol. Mae'r duedd yn ystod y deng mlynedd diwethaf yn dangos cynnydd yn y rhan fwyaf o fesurau gweinyddol, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu (yn y gymuned), y rheini sydd â nam ar eu golwg a'u clyw, a hawlwyr y rhan fwyaf o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau (ac eithrio Lwfans Byw i'r Anabl – nad yw bellach ar gael i hawlwyr newydd).

3. **Ailbennu rhywedd** (Hunaniaeth Rhywiol)

*'Y broses o drosglwyddo o un rhyw i'r llall' (EHRC). Fe wnaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 ddatgan y canlynol: 'Mae gan unigolyn nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd os yw'n bwriadu ymgymryd â phroses, wrthi'n ymgymryd â phroses neu wedi ymgymryd â phroses (neu ran o broses) at ddibenion ailbennu rhywedd yr unigolyn trwy newid priodweddau ffisiolegol neu briodoleddau eraill rhyw.'*

**Ffynonellau data**

- Caiff hunaniaeth o ran rhywedd ei ystyried yn ganfyddiad mewnol personol unigolyn o'i hunaniaeth, ac fel y cyfryw, efallai na fydd y categori rhywedd y mae unigolyn yn uniaethu ag ef yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddo/iddi ar adeg ei (g)eni. Mewn cyferbyniad, caiff rhyw ei bennu'n fiolegol.
- Yng Nghyfrifiad 2021 cafwyd yr ystadegau swyddogol cyntaf ar lefel leol a chenedlaethol am bobl drawsryweddol.
- Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae gwaith wedi'i wneud gan nifer o asiantaethau ystadegau gwladol ynghych hunaniaeth o ran rhywedd a chofnodi hunaniaethau trawrywiol ac anneuaidd, gan ystyried materion yn ymwneud â methodoleg data a llunio cwestiynau. Yng Nghymru a Lloegr, roedd y SYG wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer bodloni gofynion defnyddwyr ar gyfer yr ystadegau hyn, yn amodol ar dderbynioldeb y cyhoedd, preifatrwydd, y baich a roddir ar ymatebwyr a materion ansawdd data.
- Fe wnaeth yr ymgynghoriad yn 2015 ynghylch pynciau Cyfrifiad 2021 nodi angen ymhlith nifer o ddefnyddwyr data i gael gwybodaeth am hunaniaeth o ran rhywedd at ddibenion datblygu polisïau a chynllunio gwasanaethau (e.e. i ddarpar ugwasanaethau iechyd), ac i gael gwybodaeth am y sawl sydd â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd yn unol â disgrifiad Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Roedd y SYG wedi cynnwys cwestiwn hunaniaeth rhywedd yng Nghyfrifiad 2021 sy'n casglu gwybodaeth am y rheini y mae eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a neilltuwyd iddynt ar adeg eu geni. Roedd y cwestiwn yn wirfoddol, a chafodd ei ofyn i bobl 16 oed neu'n hŷn yn unig ac roedd yn cynnwys opsiwn ymateb "mae'n well gen i beidio â dweud".

**Ystadegau Allweddol**

- Roedd y cwestiwn hunaniaeth rhywedd yng nghyfrifiad 2021 yn gofyn "Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?" Yn gyffredinol, roedd 93.5% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yn Abertawe wedi ateb y cwestiwn (Cymru 93.7%; Cymru a Lloegr 94.0%).
- Ymatebodd gyfanswm o 864 o bobl yn Abertawe (0.4% o'r holl bobl 16 oed neu'n hŷn) "Nac Ydy" (Cymru 0.4%; Cymru a Lloegr 0.5%).
- O'r cyfanswm hwn, atebodd 320 o bobl yn Abertawe (0.2% o'r cyfanswm) "Nac ydy" ond ni ddarparwyd ymateb ysgrifennu; roedd 146 (0.1%) yn uniaethu fel dyn traws; roedd 160 (0.1%) yn uniaethu fel menyw draws; ac roedd 238 (0.1%) yn uniaethu fel anneuaidd neu cofnodwyd hunaniaeth rhywedd wahanol ganddynt.

**Amrywiadau lleol**

- Cafwyd y lefel isaf o ddata ar hunaniaeth rhywedd o Gyfrifiad 2021 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG). Oherwydd y niferoedd bach o bobl nad yw eu hunaniaeth

rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni, prin yw'r opsiynau ar gyfer dadansoddi categorïau ymateb penodol yn ystyrlon ar y lefel hon o ddaearyddiaeth, gan gynnwys unrhyw ddadansoddiad amlamryweb ar lefel leol. Yn ogystal â hyn, gan fod y cwestiwn yn wirfoddol, dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol o wahaniaethau mewn cyfraddau ymateb wrth gymharu rhwng gwahanol feysydd.

- Yn Abertawe, mae cyfran yr oedolion 16+ oed y mae eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni ar ei huchaf yn ACEHG Canol Abertawe (1.2%), Brynmill ac Uplands (1.0% ill dau). Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021, roedd y gyfran hon yn 0.5% neu'n is mewn 25 o'r 30 ACEHG yn Abertawe.
- Yr ACEHG yn Abertawe gyda'r cyfrannau uchaf o bobl na atebwyd y cwestiwn hwn oedd Glandŵr (10.2%) a Sgeti (9.5%).

**Casgliad**

- Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd Cyfrifiad 2021 yn galluogi gwybodaeth ystadegol am hunaniaeth rhywedd ac ailbennu rhywedd am y tro cyntaf; Felly, ar hyn o bryd mae'n anodd asesu newid ystadegol dros amser a thueddiadau'r dyfodol ar gyfer y pwnc hwn.
- Mae'r SYG yn bwriadu cynnal a chyhoeddi dadansoddiad pellach ar bynciau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd ym mlwyddyn gyntaf rhaglen ddadansoddi Cyfrifiad 2021 a'r blynyddoedd canlynol, yng ngoleuni adborth defnyddwyr ac ymchwil a phrofi data pellach.

## 4. Priodas a phartneriaeth sifil

*'Mae priodas yn undeb rhwng dyn a menyw neu rhwng cwpwl o'r un rhyw.*

*Gall cyplau o'r un rhyw gael cydnabyddiaeth gyfreithiol i'w perthynas fel 'partneriaethau sifil'. Ni ddylai partneriaid sifil gael eu trin yn llai ffafriol na chyplau priod (ac eithrio ble mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu hynny).' (EHRC)*

### Ffynonellau data

- Y Cyfrifiad yw'r prif ffynhonnell o ddata lleol am statws priodas a phartneriaeth sifil oedolion. Yng Nghyfrifiad 2021, mae data ar gael i oedolion y mae eu statws yn un o'r categorïau eang: Erioed wedi priodi ac erioed wedi cofrestru partneriaeth sifil; yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig; wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod yn briod neu'n gyfreithiol yn dal i fod mewn partneriaeth sifil; wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu; a gweddw neu bartner partneriaeth sifil sy'n goroesi. Mae data'r Cyfrifiad hefyd yn dadansoddi'r categorïau hyn ymhellach, e.e. boed yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig, o'r un rhyw neu'r rhyw arall.
- Ar gyfer Cyfrifiad 2011, cafodd y categorïau eu newid i adlewyrchu Deddf Partneriaethau Sifil 2004, sydd, ers mis 2005, wedi galluogi cyplau o'r un rhyw i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u perthynas trwy sefydlu partneriaeth sifil. Yn ddiweddarach, pasiwyd Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ym mis Gorffennaf 2013, a chynhaliwyd y priodasau cyntaf ym mis Mawrth 2014. Cyfrifiad 2021 oedd y cyntaf i gynnwys ystadegau ar bobl mewn priodasau o'r un rhyw.
- Yn ogystal, roedd Deddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru etc.) 2019 wedi galluogi cyplau o'r rhyw arall i ffurfio partneriaethau sifil, gyda goblygiadau ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 ac ystadegau'r dyfodol ar statws, ffurfio a diddymu partneriaethau sifil.
- Caiff amcangyfrifon seiliedig ar arolygon o statws priodasol a threfniadau byw pobl eu cyhoeddi'n flynyddol gan yr ONS, ond ar gyfer Cymru ac ar gyfer Cymru a Lloegr (C&Ll) yn unig. Cyfrifir y rhain trwy gymhwyso'r statws priodasol a'r dosraniadau trefniadau byw a gafwyd o'r Arolwg o'r Llafurlu i amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn.
- Caiff ystadegau blynyddol am y nifer o briodasau yn ôl yr ardaloedd awdurdodau lleol ble wnaethant ddigwydd eu cyhoeddi (hyd at 2020 ar hyn o bryd), a'u rhannu yn ôl y math o seremoni (sifil neu grefyddol) a statws ac oedran y priodfab a'r brodferch. Mae data ar briodasau o'r un rhyw (hefyd yn ôl ardal y digwyddiad i lefel awdurdod lleol) hefyd ar gael ar gyfer y blynyddoedd o 2014. Ar hyn o bryd mae ond yn bosib cyhoeddi ystadegau priodasau blynyddol terfynol dros ddwy flynedd ar ôl diwedd y flwyddyn gyfeirio oherwydd oediadau wrth gyflwyno cofnodion priodasau crefyddol, er bod deddfwriaeth ddiweddar yn bwriadu gwella amseroldeb.

### Ystadegau allweddol

- Adroddodd Cyfrifiad 2021 fod ychydig dros 41% o breswylwyr Abertawe 16 oed ac yn hŷn (81,400 o bobl) yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig, cyfran ychydig yn is na Chymru (43.8%) a Chymru a Lloegr (44.6%), gyda chyfrannau uwch cyfatebol yn sengl. Mae'r ffigurau ar gyfer categorïau eraill yn gymharol agos i gyfartaledd Cymru.

**Tabl 4**: Statws priodas a phartneriaeth sifil, Cyfrifiad 2021

| Statws priodas a phartneriaeth sifil, 2021: | Abertawe | % o'r cyfanswm | % Cymru | % C&Ll |
|---|---|---|---|---|
| Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil | 79,035 | 39.9 | 37.2 | 37.9 |
| Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 81,426 | 41.2 | 43.8 | 44.6 |
| Wedi gwahanu, ond yn dal yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol | 4,280 | 2.2 | 2.0 | 2.2 |
| Wedi ysgaru neu'r bartneriaeth sifil wedi'i diddymu | 19,206 | 9.7 | 9.9 | 9.1 |
| Yn weddw neu wedi colli partner sifil trwy farwolaeth | 13,909 | 7.0 | 7.1 | 6.1 |
| *Yr holl breswylwyr arferol 16 oed ac yn hŷn* | *197, 856* | *100* | *100* | *100* |

**Ffynhonnell:** Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.
Nodiadau: Mae statws priodasol a phartneriaeth sifil yn dosbarthu unigolion yn ôl eu statws priodasol cyfreithiol neu bartneriaeth sifil gofrestredig ar ddiwrnod y cyfrifiad, 21 Mawrth 2021..

- Cafodd cyfyngiadau sy'n ymwneud â phandemig COVID-19 effaith amlwg ar nifer, amseriad a nodweddion y priodasau a ddigwyddodd yn 2020 (blwyddyn ddiweddaraf yr ystadegau cyhoeddedig) yn erbyn blynyddoedd blaenorol. Mae cyfraddau priodasau cenedlaethol yn 2020 wedi mwy na haneru o'u cymharu â 2019, ac yn Abertawe roedd ffigwr 2020 (423) yn llai na 40% o gyfanswm 2019 (1,123).
- Yn y tair blynedd flaenorol (2017-2019), cafwyd cyfartaledd o 1,147 o briodasau rhyw arall yn Abertawe bob blwyddyn. Dros yr un cyfnod o dair blynedd, cafwyd cyfartaledd o 40 o briodasau o'r un rhyw yn Abertawe bob blwyddyn.

**Amrywiadau lleol**

- Mae data Cyfrifiad 2021 ar lefel ward yn dangos rhai amrywiadau gofodol mewn statws priodasol yn Abertawe, gyda thros 50% o'r boblogaeth oedolion 'Erioed wedi priodi ac erioed wedi cofrestru partneriaeth sifil' yn wardiau Uplands, Y Castell, Y Glannau, Taenella a Glandŵr, ond o dan 25% yn Falais, Llandeilo Ferwallt, Pennard a Gŵyr. Mae'r patrwm yn troi o chwith ar gyfer cyfran yr oedolion sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig; mae'r uchaf (+60%) yn Mayals, ac yna Gŵyr, Pennard a Llandeilo Ferwallt, ond yn is na 25% yn y Castell ac Uplands.

**Newid dros amser**

- Gellir gweld newidiadau o ran patrymau statws priodasol tymor hir trwy gymharu canlyniadau Cyfrifiadau 2011 a 2021. Yn Abertawe, cynyddodd nifer y bobl 16 oed a throsodd sydd 'erioed wedi priodi neu erioed wedi bod mewn partneriaeth sifil gofrestredig' mewn termau absoliwt a chanrannol; o 72,496 (36.7%) yn 2011 i 79,035 (39.9%) yn 2021. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y bobl a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig yn Abertawe oddeutu 5,400 dros y deng mlynedd hynny, a syrthiodd fel cyfran o 43.9% i 41.2% rhwng dyddiadau'r Cyfrifiad.
- Gan fod 2020 yn flwyddyn mor annodweddiadol oherwydd y pandemig, mae asesiad ystyrlon o newid i'r flwyddyn honno'n gyfyngedig. Cynyddodd nifer y priodasau yn Abertawe 220 neu 22.3% rhwng 2009 a 2014 (Cymru +6.3%, Cymru a Lloegr +8.5%). Fodd bynnag, ers hynny mae'r duedd gyffredinol wedi troi o chwith, gyda nifer blynyddol yr holl briodasau yn gostwng 83 neu 6.9% rhwng 2014 a 2019. Mae tueddiadau cenedlaethol yn debyg; yn disgyn yng Nghymru (-12.3%) ac yng Nghymru a Lloegr (-12.8%).

- Yn y deng mlynedd o 2009 i 2019, bu cynnydd hefyd yng nghyfran y seremonïau priodasau sifil, yn hytrach na chrefyddol, gan godi o 63.3% o gyfanswm Abertawe yn 2009 i 86.2% yn 2019.

**Tueddiadau'r dyfodol**

- Yn y blynyddoedd diweddar nid yw cyfran uwch o'r boblogaeth oedolion yn briod, yn Abertawe ac yn genedlaethol, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu y gall y duedd hon newid yn y tymor byr.
- Caiff newidiadau ym mhatrymau statws priodasol oedolion a nifer y priodasau a'r seremonïau partneriaethau sifil eu harwain bob amser gan newidiadau ehangach yn y gymdeithas. Gellid darparu arwydd drwy ragamcanu tueddiadau diweddar ymlaen, ond byddai'n anodd mesur hyn gydag unrhyw sicrwydd, gan ei fod wedi'i gymhlethu gan effaith y pandemig ar ystadegau 2020 (a rhai diweddarach).
- Yn flaenorol, mae'r ONS wedi llunio amcanestyniadau am statws priodasol ar y lefel genedlaethol, yn fwyaf diweddar yn 2010 (yn gyson â'r amcanestyniadau am y boblogaeth genedlaethol ar sail 2008). Yn y amcanestyniadau hyn, rhagwelir y gwnaiff y boblogaeth o oedolion priod yng Nghymru a Lloegr ostwng yn y cyfnod o 2008 i 2033, o tua 49% i 42%; a rhagwelir y gwnaiff y gyfran o oedolion sy'n sengl (erioed wedi priodi) gynyddu o 35% i 43%. Er nad oes gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynlluniau ar hyn o bryd i ddiweddaru'r rhagamcanion hyn, mae ystadegau dilynol wedi cadarnhau'r duedd hirdymor hon.

**Casgliadau**

- Mae deddfwriaeth ddiweddar wedi newid y categorïau ymateb ac allbwn ar gyfer statws priodasol ac ystadegau eraill ar briodasau.
- Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn feincnod pwysig o dueddiadau cymdeithasol ynghylch priodas a statws priodasol.
- Yn gyffredin â llawer o ardaloedd trefol a dinasoedd prifysgol, mae gan Abertawe gyfran uwch o oedolion nad ydynt erioed wedi priodi ac nad ydynt erioed wedi cofrestru partneriaeth sifil na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- Atgyfnerthwyd y darlun hwn yn ystod y blynyddoedd diweddar, a gadarnhawyd gan ganlyniadau Cyfrifiad 2021, gyda thwf parhaus mewn rhai categorïau o oedolion nad ydynt yn briod ac nac ydynt mewn partneriaeth sifil gofrestredig – mewn termau syml, y categorïau 'erioed wedi priodi' ac 'wedi ysgaru' – a gostyngiadau yn y niferoedd sy'n 'briod', 'wedi gwahanu' neu'n 'weddw'.
- Yn Abertawe, cynyddodd nifer blynyddol y priodasau (o'r rhyw arall a'r un rhyw) yn raddol tan uchafbwynt diweddar yn 2016, ond ers hynny maent wedi gostwng. Mae hefyd gyfran gynyddol o seremonïau sifil yn hytrach na chrefyddol yn Abertawe, fel mewn mannau eraill. Dangosodd yr ystadegau diweddaraf (2020) ar briodasau gwymp sydyn iawn, yn rhannol oherwydd effaith y pandemig. Efallai bydd ystadegau'r dyfodol, ar gyfer 2021 ac yn ddiweddarach, yn dangos rhywfaint o adferiad ond mae oedi o hyd wrth gyhoeddi'n swyddogol..

## 5. Beichiogrwydd a mamolaeth

*'Ystyr beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod wedi'r enedigaeth, ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Mewn cyd-destun sydd ddim yn ymwneud â gwaith, bydd amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth yn para am 26 wythnos wedi genedigaeth plentyn, ac mae hynny'n cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod hi'n bwydo o'r fron.' (EHRC)*

**Ffynonellau data**

- Caiff ystadegau am feichiogiadau, genedigaethau a ffrwythlondeb eu cyhoeddi gan yr ONS, a cheir rhagor o ddansoddi ac allbynnau gan Lywodraeth Cymru. Llunnir yr ystadegau hyn o systemau gweinyddol sefydledig.
- Mae data am feichiogiadau (nifer o feichiogiadau a chyfraddau fesul 1,000 o fenywod 15 – 44 mlwydd oed) yn darparu'r amcangyfrifiad gorau o nifer y menywod a ddaeth yn feichiog yn ystod blwyddyn, yn ôl oedran mam. Mae'r ffigurau yn cyfuno niferoedd y mamolaethau (beichiogrwydd sy'n arwain at enedigaethau un neu ragor o blant) ac erthyliadau gan ddefnyddio gwybodaeth a gofnodir ar adeg cofrestru genedigaethau a hysbysiadau am erthyliadau, ond nid ydynt yn cynnwys beichiogiadau sy'n arwain at golli plentyn neu erthyliadau anghyfreithlon.
- Fodd bynnag, nid yw ystadegau beichiogiadau a genedigaethau yn cyfrif yr un peth; ni fydd pob beichiogiad yn arwain at enedigaeth plentyn byw, a bydd rhai beichiogiadau yn arwain at eni mwy nag un plentyn. Bydd data ynghylch blwyddyn benodol yn cyfrif gwahanol bobl, oherwydd efallai na fydd beichiogiad yn arwain at enedigaeth tan y flwyddyn galendr ddilynol.
- Mae ystadegau am enedigaethau yn cynrychioli genedigaethau a ddigwyddodd mewn ardal yn ystod blwyddyn, ond maent hefyd yn cynnwys nifer fechan iawn o gofrestriadau hwyr o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn ymwneud â blwyddyn galendr 2021. Mae'r ffigurau wedi'u llunio ar sail gwybodaeth a ddarperir pan gofrestrir genedigaethau fel rhan o gofrestru sifil, sy'n ofyniad cyfreithiol.
- Bydd ystadegau cyfraddau yn deillio o nifer y genedigaethau ac amcangyfrifon o boblogaeth hefyd yn cael eu cyhoeddi, er enghraifft, Cyfradd Genedigaethau Fras (genedigaethau byw fesul 1,000 o'r boblogaeth), Cyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol (genedigaethau byw fesul 1,000 o fenywod 15-44 mlwydd oed) a Chyfraddau Ffrwythlondeb Penodol i Oedran (ASFRs) o fewn yr ystod oedran 15-44.
- Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb (TFR) yn adlewyrchu'r nifer gyfartalog o blant byw y byddai grŵp o fenywod yn eu hesgor pe baent yn profi cyfraddau beichiogrwydd penodol i oedran y flwyddyn galendr trwy gydol y cyfnod y maent mewn oed i esgor. Mae'r TFR yn darparu mesur gwell trwy ystyried maint a strwythur oedran y boblogaeth o fenywod sydd mewn oed i esgor, sy'n effeithio ar nifer y genedigaethau.
- Caiff ystadegau beichiogiadau eu mynegi fel cyfanswm neu gyfraddau – yn nodweddiadol, fesul 1,000 o fenywod o fewn grŵp oedran penodol yn yr ystod oedran 15 – 44 – a chanran y beichiogiadau sy'n arwain at erthyliad.
- Caiff ystadegau genedigaethau eu cyhoeddi'n rheolaidd hefyd ar lefel ddaearyddol leol, megis Wardiau ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach, i alluogi dadansoddiadau lleol o dueddiadau yn ymwneud â genedigaethau a chyfraddau genedigaethau/ffrwythlondeb.

**Ystadegau allweddol**

- Yn Abertawe, cafwyd 2,908 o feichiogiadau ymhlith menywod o bob oedran yn 2021, cynnydd bychan ar gyfanswm 2020 (2,858). Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd beichiogiadau o 65.3 fesul 1,000 o fenywod (15-44 mlwydd oed), sy'n is na chyfraddau cyfatebol Cymru (70.7) a Chymru a Lloegr (71.5). Yn 2021, cafwyd 42 o feichiogiadau ymhlith benywod dan 18 oed yn Abertawe, gyda'r gyfradd genhedlu dan 18 oed yn 11.6 (fesul 1,000 o fenywod rhwng 15 a 17 oed), yn is na Chymru (15.2) a Chymru a Lloegr (13.2).
- Yn 2021, ganwyd 2,067 o fabanod i breswylwyr yn Abertawe, sy'n agos iawn i ffigur 2020 (+2,033). Ar hyn o bryd, mae Cyfradd Genedigaethau Fras o 8.7 (genedigaethau byw fesul 1,000 o bobl yn 2021) yn is na chyfradd Cymru (9.3) a Chymru a Lloegr (10.5). Caiff y patrwm ei ailadrodd ar y cyfan yn y Gyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol, â 46.4 o enedigaethau byw fesul 1,000 o fenywod 15-44 oed yn Abertawe yn 2021 (Cymru 51.7, Cymru a Lloegr 54.1).
- Mae ffigurau'r Cyfradd Ffrwythlondeb Penodol i Oedran (ASFR) yn datgelu gwahaniaethau mewn cyfraddau yn ôl oedran. Mae cyfraddau ffrwythlondeb Abertawe ar hyn o bryd yn is na rhai Cymru ar gyfer pob grŵp oedran ac eithrio 30-34 oed a 45+ oed. Mae cymariaethau â chyfartaleddau Cymru a Lloegr yn debyg ar y cyfan, gyda chyfraddau Abertawe ar hyn o bryd yn is ym mhob oedran ac eithrio 25-29 oed.
- Ffigur diweddaraf (2021) Cyfanswm y Gyfradd Beichiogrwydd (TFR) ar gyfer Abertawe yw 1.37 o blant, sy'n is na ffigurau cyfatebol Cymru (1.50) a Chymru a Lloegr (1.55).

**Tabl 5**: Beichiogiadau, genedigaethau a ffrwythlondeb (i 2021)

| Dangosydd: | **Abertawe** | **Cyfradd** | **Cyfradd Cymru** | **Cyfradd C&Ll** |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogiadau (2021) / cyfradd fesul 1,000 [1] | 2,908 | 65.3 | 70.7 | 71.5 |
| *Newid 2016-2021 (newid yn y gyfradd)* | *-195* | *(-1.8)* | *(-1.4)* | *(-5.8)* |
| | | | | |
| Genedigaethau byw (2021) / cyfradd genedigaethau fras [2] | 2,067 | 8.7 | 9.3 | 10.5 |
| *Newid 2016-2021 (newid yn y gyfradd)* | *-408* | *(-1.4)* | *(-1.3)* | *(-1.4)* |
| Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol (GFR) [3] | | 46.4 | 51.7 | 54.1 |
| Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb (TFR) [4] | | 1.37 | 1.50 | 1.55 |
| Oed cymedrig safonedig mam [5] | | 30.5 mlwydd oed | 30.1 | 30.9 |

**Ffynonellau:** Ystadegau am Feichiogiadau, Cymru a Lloegr, 2021, ONS. Tablau Crynodebau o Enedigaethau, Cymru a Lloegr, 2021. ONS.
Nodiadau:
1: Mae data am feichiogiadau yn cyfuno gwybodaeth o gofrestriadau o enedigaethau a hysbysiadau am erthyliadau cyfreithlon sy'n digwydd i fenywod sy'n breswylwyr fel arfer. Caiff cyfraddau eu mynegi fesul 1,000 o fenywod o oedran penodol; yn achos y cyfanswm, mae hyn yn cyfeirio at fenywod 15-44 mlwydd oed.
2: Mae ystadegau am enedigaethau yn cynrychioli genedigaethau a ddigwyddodd yn y flwyddyn galendr, ond maent hefyd yn cynnwys nifer fechan iawn o gofrestriadau hwyr o'r flwyddyn flaenorol. Y Gyfradd Genedigaethau Fras yw nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o boblogaeth o bob oedran.
3: Y Gyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol (GFR) yw nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o fenywod 15-44 mlwydd oed.
4: Mae Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb (TFR) yn adlewyrchu'r nifer gyfartalog o blant byw y byddai grŵp o fenywod yn eu hesgor pe baent yn profi cyfraddau beichiogrwydd penodol i oedran y flwyddyn galendr sydd dan sylw trwy gydol y cyfnod y maent mewn oed i esgor.

5: Mae oedran cymedrig (cyfartalog) mam wedi cael ei safoni i ddileu effaith newidiadau yn nosbarthiad y boblogaeth yn ôl oedran. Felly, caiff y ffigur ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau ffrwythlondeb fesul 1,000 o'r boblogaeth o fenywod yn ôl blwyddyn oedran unigol. Cyfrifir cyfraddau gan ddefnyddio amcangyfrifon canol-blwyddyn yr ONS am y boblogaeth yn y flwyddyn benodedig.

**Amrywiadau lleol**

- Ni chyhoeddir cyfansymiau a chyfraddau beichiogiadau yn achos ardaloedd ar lefelau is na lefel ardaloedd awdurdodau lleol.
- Fodd bynnag, caiff ystadegau blwyddyn calendr am enedigaethau byw eu cyhoeddi gan yr ONS ar gyfer ardaloedd lleol, yn cynnwys wardiau ac ardaloedd cynnyrch eang, ac o'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn cysylltiedig ar gyfer ardaloedd bychan, gellir gwneud casgliadau ynghylch cyfraddau genedigaethau bras a chyfraddau ffrwythlondeb cyffredinol (GFRs) ar gyfer ardaloedd bychan.
- Mae rhywfaint o amrywiad mewn cyfraddau genedigaethau crai fesul ward yn Abertawe, gyda chyfraddau (2021) yn amrywio o o dan 4.0 yng Ngŵyr a Pennard i 14.0 yn Townhill. Mae cyfraddau genedigaethau crai hefyd yn uwch na 11.0 ym Môn-y-maen, Penlle'r-gaer a Phenderi.
- Mae cyfraddau ffrwythlondeb cyffredinol (CFfCau) yn dilyn patrwm gofodol mwy amrywiol o amgylch cyfartaledd Abertawe (44.2 yn 2021); gyda'r uchaf yn hen ward De Cilâ (82.1 o enedigaethau byw fesul 1,000 o fenywod 15-44 oed), Townhill (61.7) a Llandeilo Ferwallt (60.4), a'r isaf yn Uplands (20.9) a Gŵyr (31.3).

**Newid dros amser**

- Rhwng 2016 a 2021, bu gostyngiad bychan ar y cyfan yn nifer y beichiogiadau yn Abertawe (sef 195, neu -6.3%) a'r cyfraddau cysylltiedig – gostyngiad o 1.8 pwynt yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae nifer blynyddol y genedigaethau byw yn Abertawe wedi gostwng i raddau helaethach rhwng 2016 a 2021 sef 408 (-16.5%), gyda chwymp cyfatebol yn y gyfradd genedigaethau grai o 10.1 (yn 2016) i 8.7 (2021). Mae cyfradd ffrwythlondeb cyffredinol Abertawe hefyd wedi gostwng o 53.7 yn 2016 i 46.4 yn 2021.
- Mae Cyfanswm y Gyfradd Beichiogrwydd (TFR) hefyd wedi gostwng (-0.23 neu -14.4%) yn y cyfnod pum mlynedd hwn; mae hynny ychydig yn is na gostyngiadau cyfatebol yng Nghymru (-0.24) a Chymru a Lloegr (-0.26).
- Mae oedran cymedrig safonedig mam yn Abertawe wedi cynyddu'n araf dros y pum mlynedd diwethaf, o 30.2 flynedd yn 2016 i 30.5 yn 2021; ychydig yn is na'r cynnydd cyfatebol yng Nghymru (+0.4 blynedd) a Chymru a Lloegr (+0.5 mlynedd).

**Tueddiadau'r dyfodol**

- Byddai blaenamcanu tueddiadau lleol o'r gorffennol diweddar yn llinol yn darparu safbwynt rhy syml. Gall ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ddylanwadu'n sylweddol (yn gronnus) ar dueddiadau'r dyfodol o ran ffrwythlondeb a genedigaethau, yn genedlaethol ac yn lleol.
- Mae rhagdybiaethau lefel uchel am gyfraddau ffrwythlondeb y dyfodol (hyd at 25 mlynedd) wedi'u cynnwys ym methodoleg amcanestyniadau ONS am y boblogaeth genedlaethol (ac adlewyrchir hynny yn y pen draw yn amcanestyniadau poblogaeth ardaloedd awdurdodau lleol), gan ddefnyddio tueddiadau diweddar o ran genedigaethau a ffrwythlondeb. Yn yr amcanestyniad cenedlaethol dros dro sy'n seiliedig ar 2020, y brif dybiaeth hirdymor ar gyfer maint teulu cyflawn (neu Gyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb/TFR) ar gyfer y DU yw 1.59 o blant fesul menyw erbyn canol 2045, sy'n is na'r amcangyfrif blaenorol yn seiliedig ar 2018 (1.78 o

blant). Ar gyfer Cymru, mae'r brif dybiaeth bresennol (yn seiliedig ar 2020) yn is, sef 1.47 o blant erbyn 2045. Yn amcanestyniadau diweddaraf yr awdurdod lleol (yn seiliedig ar 2018), mae'r TFR a ragwelir ar gyfer Abertawe yn cynyddu dros y cyfnod o 25 mlynedd hyd at 2043 o 1.53 i 1.65; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu mewn unrhyw amcanestyniadau lleol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad ar ôl 2021 yn y dyfodol, a bydd yn seiliedig ar dystiolaeth fwy diweddar.

**Casgliadau**

- Mae cyfraddau cenhedlu diweddar, cyfraddau genedigaethau byw a chyfraddau ffrwythlondeb yn Abertawe (hyd at 2021) yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau ar gyfer Cymru a Chymru a Lloegr, ac adlewyrchir hyn yn y pen draw yn y niferoedd is o blant ar gyfartaledd a anwyd i fenywod yn Abertawe.
- Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae niferoedd beichiogiadau a genedigaethau wedi gostwng, yn Abertawe ac yn genedlaethol.
- Yn Abertawe, mae cyfraddau ffrwythlondeb ar hyn o bryd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau oedran.
- Ceir amrywiadau o ran cyfraddau genedigaethau a ffrwythlondeb o fewn Abertawe, a cheir cyfraddau is mewn ardaloedd ble ceir proffil oedran hŷn neu gyfrannau uwch o fyfyrwyr, ac mae'r cyfraddau uwch yn tueddu i ddigwydd yn y wardiau trefol llai cefnog neu mewn ardaloedd ble mae datblygiadau tai wedi ehangu'n ddiweddar.
- Bydd yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a lleol cyntaf sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2021 yn ymgorffori tystiolaeth ddiweddar ynghylch ffrwythlondeb fel elfen allweddol mewn unrhyw amcanestyniad.
- Ar y lefel leol, efallai bydd modd amcangyfrif gwahaniaethau mewn ardaloedd yn y dyfodol o fewn Abertawe trwy ystyried datblygiadau tai newydd a nodir ym mhroses monitro'r Cynllun Datblygu Newydd (unedau o dai a adeiladir o'r newydd, ymrwymiadau a dyraniadau).

## 6. Hil

*'Mae'n cyfeirio at nodwedd warchodedig hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio gan eu hil, eu lliw a'u cenedligrwydd (yn cynnwys dinasyddiaeth) a tharddiad ethnig neu hunaniaeth genedlaethol*'. (EHRC)

### Ffynonellau data

- Prif ffynhonnell data lleol manwl ar nodweddion poblogaeth sy'n gysylltiedig â hil, gan gynnwys ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol, yw'r Cyfrifiad – gyda data 2021 ar gyfer daearyddiaeth leol bellach ar gael.Gellir defnyddio amrywiadau data eraill y Cyfrifiad i gynorthwyo i wneud dadansoddiad yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, gwlad genedigaeth, crefydd, iaith (ac eithrio'r Gymraeg neu'r Saesneg) a phasbortau sydd ym meddiant unigolion.
- Cyn Cyfrifiad 2011, byddai'r ONS yn cyhoeddi amcangyfrifon blynyddol o ethnigrwydd ar lefel awdurdodau lleol. Yn 2017, cyhoeddodd y SYG ymchwil ar ddull ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol (fel allbynnau ymchwil) yn ôl gwlad enedigol, cenedligrwydd a grŵp ethnig (ar gyfer canol 2016) gan ddefnyddio data o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB), y Cyfrifiad ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn.
- Mae amcangyfrifon poblogaeth ar lefel awdurdod lleol yn ôl gwlad enedigol a chenedligrwydd wedi'u cyhoeddi bob dwy flynedd gan y SYG gan ddefnyddio data o'r APB; Fodd bynnag, oherwydd maint y sampl, gall amcangyfrifon ar gyfer grwpiau penodol fod yn gymharol fach mewn ardaloedd lleol, gyda chyfyngau hyder eang. Mae data crynodol APS am grwpiau ethnig (gwyn/heb fod yn wyn, 16+ mlwydd oed yn unig) hefyd ar gael.
- Mae ffynonellau data eraill a all gyfleu darlun a thueddiadau mewn poblogaeth yn ôl grŵp ethnig yn cynnwys y Cyfrifiad Ysgolion blynyddol a gynhelir yng Nghymru, sy'n cofnodi ethnigrwydd disgyblion sy'n 5 mlwydd oed neu'n hŷn.

### Ystadegau allweddol

- Yng Nghyfrifiad 2021, Gwyn yw'r grŵp ethnig mwyaf yng Abertawe, ac mae 91.4% o breswylwyr (218,052 o bobl) yn perthyn i'r grŵp ethnig hwn, ac mae'r 8.6% arall yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn. Mae Tabl 6 yn manylu ar y data diweddaraf ar gyfer Abertawe gyda ffigurau % cymharol ar gyfer Abertawe, Cymru a Chymru a Lloegr ar y lefel uchaf o ddosbarthiad grwpiau ethnig.

**Tabl 6**: Poblogaeth yn ôl grŵp ethnig, Cyfrifiad 2021

| Grŵp ethnig, 2021: | **Abertawe** | **% o'r cyfanswm** | **% Cymru** | **% Cymru a Lloegr** |
|---|---|---|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | 10,451 | 4.4 | 2.9 | 9.3 |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 2,797 | 1.2 | 0.9 | 4.0 |
| Grwpiau ethnig Cymysg neu Amlethnig | 3,808 | 1.6 | 1.6 | 2.9 |
| Gwyn | 218,052 | 91.4 | 93.8 | 81.7 |
| Grŵp ethnig arall | 3,383 | 1.4 | *0.9* | *2.1* |
| *Cyfanswm y boblogaeth* | *238,491* | *100* | *100* | *100* |

**Ffynhonnell:** Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.
Daliwch sylw: Mae'r ystadegau am grwpiau ethnig yn dosbarthu pobl ar sail eu canfyddiad hwy eu hunain o'u grŵp ethnig a'u cefndir diwylliannol.

- Mae dadansoddiad mwy penodol, drwy 19 categori grŵp ethnig, hefyd ar gael o'r Cyfrifiad. Ar y lefel hon, y grwpiau mwyaf yn Abertawe yw 'Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig' sef 208,703 (87.5% o boblogaeth Abertawe), ac yna 'Gwyn: Gwyn Arall' (8,028 o bobl, 3.4%).
- Y grwpiau ethnig heb fod yn wyn mwyaf yn Abertawe yng Nghyfrifiad 2021 oedd 'Asiaidd: Bangladeshaidd' (2,865 o bobl, 1.2%), 'Asiaidd arall' (2,528 o bobl, 1.1%), 'Du: Affricanaidd' (2,227 o bobl, 0.9%), 'Asiaidd: Indiaidd' (2,172 o bobl, 0.9%), 'Asiaidd: Tsieineaidd' (1,932 o bobl, 0.8%), 'Unrhyw grŵp ethnig arall' (1,805 o bobl, 0.8%), ac yna 'Grŵp ethnig eraill: Arabaidd' (1,578 o bobl, 0.7%).
- Mae data Cyfrifiad 2021 hefyd yn datgelu bod 75.2% o boblogaeth Abertawe ( 179,362 people) wedi cael eu geni yng Nghymru, 14.5% wedi cael eu geni yn Lloegr ac 0.8% wedi cael eu geni yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Yn 2021, ganwyd 22,469 o breswylwyr Abertawe (9.4% o'r cyfanswm) y tu allan i'r DU, gyda chyfansymiau gwledydd unigol dros fil yn perthyn i Wlad Pwyl (2,228), India (1,379), Bangladesh (1,243), 'Y Dwyrain Canol Arall" (1,085) a Rwmania (1,081). Roedd nifer y bobl a anwyd yn Tsieina ychydig yn is na mil (916).
- Yn y Cyfrifiad Ysgolion blynyddol diweddaraf (Ionawr 2023), roedd 19.9% o'r holl ddisgyblion 5 oed neu drosodd mewn ysgolion a gynhelir yn Abertawe yn nodi eu bod yn 'Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol', sy'n uwch na ffigur Cyfrifiad 2021 ar gyfer y boblogaeth breswyl 5-15 oed, sef 13.2%. Mae dadansoddiad lleol o'r Cyfrifiad Ysgolion yn dangos mai'r cyfrannau lleiafrifoedd uchaf o fewn y ffigwr cyffredinol hwn oedd Asiaidd (sef 4.3% o'r holl ddisgyblion ysgol ym mis Ionawr 2023) a grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog (4.2%).

**Amrywiadau lleol**

- Mae dadansoddiad ar y lefel leol o boblogaeth Abertawe yn ôl grŵp ethnig ar gael yn rhwydd o Gyfrifiad yn unig. Roedd y poblogaethau lleiafrifoedd ethnig mwyaf yn 2021 yn wardiau trefol Castell (3,511), Uplands (2,309) a Sgeti (1,938). Wardiau Castell (26.6%) ac Y Glannau (22.8%) oedd y ddwy ward uchaf o safbwynt canrannol. Mae data Cyfrifiad 2021 hefyd yn dangos niferoedd uwch o grwpiau lleiafrifol mewn rhai ardaloedd, er enghraifft pobl 'Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig' yn wardiau'r Castell, Uplands a Sgeti ac (fel cyfran) wardiau'r Glannau a Glandŵr.
- Ar lefel ward, mae'r niferoedd a'r cyfrannau uchaf o bobl a anwyd y tu allan i'r DU (Cyfrifiad 2021) yn wardiau'r Castell (3,379 o bobl, 25.6% o'r preswylwyr), Uplands (2,327 neu 16.6%), Sgeti (1,912 o bobl) a'r Glannau (27.3% o'r preswylwyr). Mae'r gyfran isaf yng Nghasllwchwr (2.5%) gyda wardiau Pen-clawdd, Pontarddulais a Phontlliw a Thircoed hefyd o dan 3%. Yn y Cyfrifiad, mae nifer uwch o bobl yn preswylio mewn wardiau penodol (mwy na 200 ym mhob achos) a anwyd mewn gwledydd penodol y tu allan i'r DU; er enghraifft, pobl a anwyd yn Bangladesh, Gwlad Pwyl, Romania a Tsieina yn y Castell; pobl a anwyd yng Ngwlad Pwyl ym Mhenderi a Townhill; pobl a anwyd yn Ynysoedd Philippines a Gwlad Pwyl yn Nhreforys; a phobl a anwyd yn India yn Uplands.

**Newid dros amser**

- Rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021, fe wnaeth y nifer amcangyfrifedig o bobl sy’n preswylio fel arfer yn Abertawe o grŵp ethnig sydd heb fod yn wyn gynyddu o 14,326 (6.0% o’r boblogaeth) i 20,439 (8.6%); cynnydd cyffredinol o tua 6,100 (+43%). Dros yr un cyfnod, gostyngodd nifer y bobl o grwpiau ethnig Gwyn tua 6,600 neu 3%.

- Y cynnydd mwyaf yr adroddwyd amdano ym mhoblogaethau'r categorïau grwpiau ethnig rhwng 2011 a 2021 oedd 'Gwyn Arall' (+3,200 o bobl tua 65%), 'Unrhyw grŵp ethnig arall' (+1,100 neu 163%), Bangladeshaidd (+900 neu 47%) ac Asiaidd Arall (+800 neu 45%).
- Rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021, cafwydd cynnydd o 5,200 neu 30.4% yn nifer y bobl sy'n preswylio fel arfer yn Abertawe a anwyd oddi allan i'r DU.
- Mae data'r Cyfrifiad Ysgolion yn datgelu, rhwng 2018 a 2023, fod nifer y disgyblion 5 i 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu o 2,555 i 3,142 (cynnydd o 587 o ddisgyblion neu 23%); mae'r gyfran yn codi o 15.6% i 19.9% o'r holl ddisgyblion.

**Tueddiadau posibl yn y dyfodol**

- Nid oes unrhyw ffynhonnell hysbys o amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grŵp ethnig, gwlad genedigaeth neu nodweddion cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi gan asiantaethau ystadegol y DU. Er bod gan yr holl amcanestyniadau dair elfen eang o newid – genedigaethau, marwolaethau a mudo – maent oll yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol i bob pwrpas. Yn wir, mae'r ONS yn pwysleisio nad yw rhagdybiaethau am fudo yn rhagfynegiadau o dueddiadau'r dyfodol; yn hytrach, dylid eu dehongli fel senarios posibl ar sail beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol.
- Mae amcanestyniadau *ad hoc* yn ôl grŵp ethnig wedi cael eu cyhoeddi'n flaenorol gan sefydliadau academaidd ac ymchwil. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffynonellau diweddar sy'n seiliedig ar y sefyllfa leol ac sydd ar gael yn rhwydd wedi dod i'r amlwg.
- Ni fyddai rhagweld tueddiadau ystadegol ymlaen ar sail linol yn darparu rhagolygon cadarn; mae ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a all fod yn berthnasol a byddai gwerth unrhyw amcanestyniadau manwl sy'n seiliedig ar dueddiadau a gynhyrchir ar y sail hon yn ddadleuol.
- Fodd bynnag, gall y data sydd wedi'u cyhoeddi ar nodweddion poblogaeth yn y Cyfrifiadau dengmlwyddol diweddaraf, ynghyd ag allbynnau cyfrifiadau ysgolion blynyddol, ddarparu syniad cyffredinol o dueddiadau hirdymor yn nodweddion y boblogaeth plant a'r boblogaeth oedolion yn y dyfodol (yn amodol ar gyfyngiadau a nodwyd yn gynharach). Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu y gall Abertawe barhau i fod yn boblogaeth fwy amrywiol o ran ethnigrwydd yn y dyfodol.

**Casgliadau**

- Er bod y Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o ddata, mae'r ffaith ei fod yn cael ei gyhoeddi mor anfynych (bob deng mlynedd) yn golygu nad yw'n gallu cyfleu darlun llawn o ddynameg newid lleol o ran nodweddion poblogaeth mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd.
- Fodd bynnag, mae amseriad canlyniadau'r Cyfrifiad diweddaraf yn ddefnyddiol ar gyfer yr adolygiad hwn. Yng Nghyfrifiad 2021, roedd gan Abertawe gyfran uwch o bobl mewn grwpiau ethnig heb fod yn wyn na Chymru (er yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr).
- Yn Abertawe (2021), roedd rhwng 1,500 a 2,000 o breswylwyr (yn fras) ym mhob un o'r grwpiau ethnig Tsieineaidd, Bangladeshaidd, Asiaidd Eraill, Affricanaidd, Arabaidd ac Indiaidd. Mae nifer a chanran y bobl yn Abertawe yn y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011.
- Mae ystadegau mwy diweddar (Cyfrifiad Ysgolion, 2023) yn awgrymu bod nifer a chyfran y plant o grwpiau ethnig nad ydynt yn grwpiau ethnig heb fod yn wyn wedi cynyddu ymhellach dros y pum mlynedd hyd at 2023.

## 7. Crefydd neu gred

*'Mae crefydd yn cyfeirio at unrhyw grefydd, yn cynnwys dim crefydd. Mae cred yn cyfeirio at unrhyw gred grefyddol neu athronyddol ac mae'n cynnwys dim cred. Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu eich ffordd o fyw i allu ei chynnwys yn y diffiniad.' (EHRC)*

### Ffynonellau data

- Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o ddata lleol am grefydd. Mae cwestiwn Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr ("*Beth yw eich crefydd?*") yn gofyn am gysylltiad â chrefydd; dyna sut mae pobl yn cysylltu neu'n uniaethu â chrefydd, beth bynnag fo'r arferion, y gred neu'r perthyn i grefydd mewn gwirionedd. Felly, yn allbynnau a dadansoddiadau'r Cyfrifiad, mae crefydd yn fesur o hunaniaeth yn hytrach na'r agweddau eraill hyn.
- Yn y bôn, ni newidiwyd categorïau cwestiwn ac ymateb Cyfrifiad 2021 o 2011 ac mae'n parhau i fod yn gwestiwn gwirfoddol, felly mae opsiwn 'heb ateb' mewn allbynnau. Roedd y cwestiwn yn cynnig dewis o saith opsiwn, sef: dim crefydd, Cristnogol, Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Moslemaidd, Sicaidd. Gall atebwyr ysgrifennu ateb neu adael y cwestiwn yn wag hefyd.

### Ystadegau allweddol

- Yng Nghyfrifiad 2021, Cristnogaeth yw crefydd mwyaf niferus Abertawe (98,492 o bobl, yn cynrychioli 41.3% o gyfanswm poblogaeth y Cyfrifiad).
- Yn 2021, roedd cyfanswm y bobl yn Abertawe â chrefydd heb fod yn Gristnogol (Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Moslemaidd, Sicaidd a Chrefydd arall) yn 11,326; 4.7% o'r holl bobl.
- O blith categorïau'r crefyddau a restrwyd, dywedodd 7,694 o bobl (3.2%) bod eu crefydd yn Foslemaidd, felly dyma'r crefydd mwyaf cyffredin wedi Cristnogaeth. Yr unig grefyddau lleiafrifol eraill â mwy na 500 o bobl yn Abertawe yn 2011 oedd Hindŵaeth (1,010 o bobl, 0.4%) a Bwdhaeth (942, 0.4%).
- Yn allbynnau'r Cyfrifiad, nid oedd gan 47.3% unrhyw gredoau crefyddol, ac ni wnaeth 6.7% ateb na datgan cred.

**Tabl 7**: Poblogaeth yn ôl crefydd, Cyfrifiad 2021

| Crefydd, 2021: | **Abertawe** | **% o'r cyfanswm** | **% Cymru** | **% Cymru a Lloegr** |
|---|---|---|---|---|
| Dim crefydd | 112,687 | 47.3 | 46.5 | 37.2 |
| Cristnogol | 98,492 | 41.3 | 43.6 | 46.2 |
| Bwdhaidd | 942 | 0.4 | 0.3 | 0.5 |
| Hindŵaidd | 1,010 | 0.4 | 0.4 | 1.7 |
| Iddewig | 159 | 0.1 | 0.1 | 0.5 |
| Moslemaidd | 7,694 | 3.2 | 2.2 | 6.5 |
| Sicaidd | 346 | 0.1 | 0.1 | 0.9 |
| Crefydd arall | 1,175 | 0.5 | 0.5 | 0.6 |
| Heb ateb | 15,985 | 6.7 | 6.3 | 6.0 |
| *Cyfanswm y boblogaeth* | *238,490* | *100* | *100* | *100* |

**Ffynhonnell:** Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.
Daliwch sylw: Mae'r ystadegau yn cyfeirio at grefydd presennol unigolyn, neu os nad oes gan yr unigolyn grefydd, 'dim crefydd'. Ni phennir a oedd yr unigolyn yn aelod o grefydd mewn gair a gweithred neu beidio.

- Mae allbynnau manylach a luniwyd o ymatebion a ysgrifennwyd i gwestiwn y Cyfrifiad am grefydd yn cynnwys nifer o hunaniaethau crefyddol sydd heb eu rhestru yn newisiadau blychau ticio’r holiadur.  Yn Abertawe, dywedodd dros 50 o bobl eu bod yn perthyn i'r categorïau crefyddol ychwanegol canlynol: Paganaidd (333), Ysbrydol (147), Ysbrydegol (97) a Wicca (67). O fewn y cyfanswm 'dim crefydd' cyffredinol, nododd dros 100 o bobl eu bod yn Agnostig (141) ac yn Anffyddwyr (61).

**Amrywiadau lleol**

- Mae ystadegau'r Cyfrifiad 2021 ar ddosbarthiad crefydd nad yw'n Gristnogol yn ôl ward yn adrodd bod y niferoedd mwyaf yn y Castell (2,158), Sgeti (1,207) ac Uplands (1,106). Wardiau'r Castell (16.4%), Glandŵr (11.7%) a'r Glannau (11.3%) sydd â'r cyfrannau uchaf o bobl â chrefydd nad yw'n Gristnogol.
- Mae data'r Cyfrifiad hefyd yn dangos rhai crynodiadau o hunaniaethau crefyddol o fewn ardaloedd penodol yn Abertawe yn 2021. Er enghraifft, roedd y niferoedd uchaf o bobl â chrefydd Fwslimaidd yn 2021 yn ward y Castell (1,713 o bobl), Sgeti (887), Uplands (772) a Glandŵr (712).
- Yn 2021, roedd tua 100 o bobl yn wardiau'r Castell a'r Uplands gyda hunaniaeth grefyddol Fwdhaidd, ac roedd dros 100 o bobl â hunaniaeth Hindŵaidd yn y Castell a'r Sgeti.
- Roedd y cyfrannau uchaf o bobl a oedd yn nodi eu bod yn Gristnogion yn Abertawe yn wardiau Mayals, Pennard, y Mwmbwls a Llandeilo Ferwallt, sef 52-55% (yn uwch na chyfartaledd Abertawe o 41%).

**Newid dros amser**

- Er bod y newid yn y boblogaeth yn Abertawe rhwng y cyfrifiadau yn gymharol wastad yn gyffredinol, gostyngodd nifer y bobl a fynegodd hunaniaeth grefyddol Gristnogol tua 33,000 neu 25% yn sydyn rhwng 2011 a 2021.
- Rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021, fe wnaeth y nifer amcangyfrifedig o bobl yn Abertawe â chrefydd heb fod yn Gristnogol gynyddu o 8,530 (3.6% o’r boblogaeth) i 11,326; cynnydd cyffredinol o tua 2,800 o bobl (+33%).
- Cafwyd yr amcangyfrif mwyaf o gynnydd ym mhoblogaeth grwpiau crefyddol lleiafrifol yn Abertawe rhwng 2011 a 2021 (er ei fod weithiau o sylfaen gymharol isel) gyda chrefyddau Mwslemaidd (+2,279 o bobl neu 41%); Hindŵaidd (+230 neu 30%); Siciaeth (+68 neu 25%); a chrefydd arall (+133 neu 13%).
- Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd o tua 31,500 o bobl yn Abertawe (+39%) heb unrhyw grefydd, a gostyngiad o tua 1,800 (-10%) yn y bobl na atebodd y cwestiwn crefydd.

**Tueddiadau posibl yn y dyfodol**

- Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oes unrhyw ffynhonell sefydledig o amcanestyniadau sy’n datgrynhoi’r boblogaeth amcangyfrifedig yn y dyfodol yn ôl nodweddion megis crefydd.
- Ni fyddai blaenamcanu patrymau ystadegol yn llinol neu ar sail tueddiadau yn darparu rhagolygon cadarn; ceir amrywiaeth eang o ffactorau cymdeithasol a all ddylanwadu ar ddeilliannau’r dyfodol.
- Mae data arall a gyhoeddwyd ar ethnigrwydd a hunaniaeth yn awgrymu bod Abertawe'n debygol o barhau i fod yn boblogaeth fwy amrywiol yn y dyfodol, tueddiadau sy'n debygol o gael eu hefelychu (yn gyffredinol) ar gyfer crefyddau lleiafrifol.

**Casgliadau**

- Nododd ychydig dros 40% o boblogaeth Abertawe eu bod yn Gristnogion (Cyfrifiad 2021), cyfran is nag un Cymru a Lloegr a Chymru, a gostyngiad amlwg ers 2011.
- Fe wnaeth y nifer o bobl yn Abertawe a oedd yn gysylltiedig â chrefydd leiafrifol gynyddu rhwng 2011 a 2021; roedd y grwpiau mwyaf yn Foslemaidd, Bwdhaidd a Hindŵaidd yn y drefn honno.
- Fe wnaeth nifer y bobl a wnaeth ddatgan nad oedd ganddynt unrhyw grefydd gynyddu'n sylweddol rhwng y Cyfrifiadau hefyd.

## 8. Rhyw

*Dyn neu fenyw. (EHRC)*

### Ffynonellau data

- Caiff data poblogaeth yn ôl rhyw eu cynhyrchu'n flynyddol gan yr ONS fel rhan o'r amcangyfrifon canol-blwyddyn swyddogol ac maent ar gael o lefel ardaloedd bychan i'r lefel cenedlaethol.
- Cafodd yr amcangyfrifon canol-blwyddyn diweddaraf ar gyfer 2022, yn cynnwys amcangyfrifon yn ôl rhyw, eu cyhoeddi ym Tachwedd 2023. Cyfrifir amcangyfrifon poblogaeth diweddar trwy ddefnyddio Cyfrifiad diweddaraf (2021) fel meincnod a chymhwyso data am gofrestriadau genedigaethau a marwolaethau, ynghyd â llifoedd mudo amcangyfrifedig.
- Cyhoeddir amcangyfrifon poblogaeth blynyddol ardaloedd bach (e.e. wardiau) yn ôl rhyw hefyd fel mater o drefn. Fodd bynnag, y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd yw'r rheini o'r Cyfrifiad (Mawrth 2021).
- Mynegir niferoedd cymharol gwrywod a benywod yn y boblogaeth hefyd fel cymhareb rhyw – sydd fel arfer yn cael ei fesur fel nifer y gwrywod yn y boblogaeth ar gyfer pob 100 o fenywod. Gellir dadansoddi hyn ymhellach ar sail oedran.
- Cynhyrchir amcanestyniadau poblogaeth swyddogol ar lefel awdurdodau lleol ar sail tueddiadau, gan gynnwys rhyw, gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio data'r SYG. Cynhyrchwyd yr amcanestyniadau diweddaraf (yn seiliedig ar 2018) yn 2020, ac ni ddisgwylir unrhyw amcanestyniadau sy'n ymgorffori canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn y dyfodol agos.
- Mae ystadegau blynyddol am enedigaethau byw yn dangos y gwahaniaethau yn niferoedd y bechgyn a'r genethod sy'n cael eu geni, a newidiadau dros amser. Gellir cael data ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol yn ogystal ag ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.
- Cyhoeddir gwahaniaethau mewn disgwyliad oes (ar enedigaeth ac ar adegau eraill) ar wahân hefyd, fel mater o drefn, ar gyfer gwrywod a benywod gan y SYG am gyfnodau treigl o dair blynedd; mae'r data diweddaraf ar gyfer 2020-22.

### Ystadegau allweddol

- Cyfanswm yr amcangyfrif poblogaeth (canol 2022) ar gyfer Abertawe yw 241,300 (wedi'i dalgrynnu); gyda 121,800 o fenywod a 119,500 o wrywod.
- Fel canran, roedd 50.5% o boblogaeth Abertawe yn 2021 yn fenywod (Cymru a'r Cymru a Lloegr 51.0%) a 49.5% yn wrywod (Cymru a'r Cymru a Lloegr 49.0%). Mae'r rhaniad yn fwy cyfartal yn Abertawe nag ar y lefel genedlaethol.
- Mae Tabl 8 yn crynhoi amcangyfrifon poblogaeth canol 2022 yn ôl rhyw, yn Abertawe, Cymru a'r Cymru a Lloegr, a chymarebau gwrywod i fenywod. Mae dadansoddiadau pellach, gan gynnwys yn ôl rhyw yn ôl oedran, ar gael.

**Tabl 8**: Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl rhyw a chyfraddau (canol-blwyddyn 2022)

| Rhyw: | **Abertawe** | **% o'r cyfanswm** | **% Cymru** | **% C a L** |
|---|---|---|---|---|
| Benywod | 121,800 | 50.5% | 51.0% | 51.0% |
| Gwrywod | 119,500 | 49.5% | 49.0% | 49.0% |
| *Cyfanswm* | *241,300* | *100%* | *100%* | *100%* |
| Cyfradd Gwrywod i Benywod | 98.1 | | 96.1 | 96.1 |
| Cyfradd, 0-15 oed | 107.1 | | 105.1 | 107.1 |
| Cyfradd, 16-64 oed | 101.5 | | 97.4 | 97.2 |
| Cyfradd, 65+ oed | 82.1 | | 86.2 | 84.8 |
| Cyfradd, 85+ oed | 59.2 | | 60.7 | 60.8 |

**Ffynhonnell**: Amcangyfrifon Canol-blwyddyn 2022 (wedi'u talgrynnu), Uned Amcangyfrifon Poblogaeth, ONS.
© Hawlfraint y Goron 2023.
Sylwer: Mae'r ffigur cymhareb Gwryw i Fenyw yn cyfeirio at y nifer amcangyfrifedig o wrywod yn y boblogaeth fesul 100 o fenywod.

- Y gymhareb rhyw gyffredinol ar gyfer Abertawe yn 2021 oedd 98.1 (gwrywod fesul 100 o fenywod). Mae cymarebau Cymru a Chymru a Lloegr yn is, ychydig dros 96. Er bod mwy o fenywod na gwrywod yn y boblogaeth genedlaethol, mae ffigurau Abertawe ychydig yn fwy cytbwys na chyfartaleddau cenedlaethol.
- Mae'r tabl hefyd yn dangos y gwahaniaethau mewn cymarebau gwrywod i fenywod ar bob cyfnod bywyd allweddol. Ymhlith plant (0-15 oed), mae mwy o fechgyn na merched yn Abertawe ac yn genedlaethol, sy'n adlewyrchu'n bennaf y niferoedd uwch diweddar o fabanod gwrywaidd bob blwyddyn. Yn y boblogaeth oedran gweithio (16-64 oed), mae'r gymhareb yn Abertawe yn fwy cytbwys yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthdroi ar gyfer y boblogaeth 65+ oed, gyda nifer sylweddol uwch o fenywod na gwrywod. Mae'r patrwm hwn yn weddol debyg yng Nghymru a'r Cymru a Lloegr. Mae'r gwahaniaeth yn fwy pendant ymhlith pobl 85 oed a throsodd, gyda disgwyliad oes hwy benywod yn brif ffactor.
- O'r 2,067 o enedigaethau yn Abertawe yn 2021 (y data diweddaraf sydd ar gael), roedd 52.3% yn wrywod a 47.7% yn fenywod (Cymru - 51.4% yn wrywod, 48.6% yn fenywod; y DU - 51.2% yn wrywod, 48.8% yn fenywod). Mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau cyffredinol yn ystod blynyddoedd diweddar.
- Mae disgwyliad oes yn uwch i fenywod na gwrywod, yn lleol ac yn genedlaethol. Yn 2020-22, roedd disgwyliad oes ar adeg geni yn Abertawe yn 76.9 o flynyddoedd yn achos gwrywod (Cymru 77.9) ac yn 81.5 yn achos benywod (Cymru 81.8).

**Amrywiadau lleol**

- Mae amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod mwy o wrywod preswyl na benywod (h.y. yn uwch na 50% o'r cyfanswm) mewn 5 yn unig o'r 32 o wardiau etholiadol yn Abertawe. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol uwch o wrywod yn wardiau'r Glannau (57.8%) a'r Castell (54.9%).
- I'r gwrthwyneb, mae'r cyfraddau uchaf o fenywod yn Penderi (53.1%) a West Cross (52.6%).
- Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn hefyd yn yr amrywiad rhwng ffigurau'r gymhareb gwrywod i fenywod fesul ward yn Abertawe, sy'n amrywio o 88.4 o wrywod fesul 100 o fenywod ym Mhenderi i 136.9 o wrywod fesul 100 o fenywod yn y Glannau (data Cyfrifiad 2021).

**Newid dros amser**

- Mae newid yng nghyfrannau cymharol gwrywod a benywod o fewn cyfanswm y boblogaeth yn tueddu i ddigwydd yn eithaf graddol. Yn y deng mlynedd hyd at ganol 2022, o fewn cynnydd amcangyfrifedig cyffredinol yn y boblogaeth yn Abertawe o oddeutu 2,000 (wedi'i dalgrynnu), cynyddodd nifer y gwrywod oddeutu 1,200 (+1.0%) a chynyddodd cyfanswm y benywod oddeutu 900 (+0.7%). O ganlyniad mae'r bwlch rhwng nifer y benywod a'r gwrywod wedi culhau ychydig, o 2,700 yn 2012 i 2,300 yn 2022. Fodd bynnag, roedd y bwlch hwn yn uwch yn 2001, ar 7,100.
- Yn yr un modd, roedd y gymhareb gwrywod i fenywod yn Abertawe (98.1 i 100 yn 2022) ychydig yn is, sef 97.8 o wrywod fesul 100 o fenywod yn 2012, a 94.0 yn 2002.
- Mae gwelliannau tymor hir mewn disgwyliad oes i wrywod a benywod wedi sefyll yn eu hunfan. Yn y deng mlynedd hyd at y cyfnod 2020-22, mae disgwyliad oes wedi gostwng 0.6 blynedd ar gyfer gwrywod a benywod.. Mae'r bwlch rhwng gwrywod a benywod yn Abertawe wedi bod yn weddol debyg dros y 10 mlynedd diwethaf (o 2010-12 i 2020-22), gyda disgwyliad oes i fenywod tua 4.6 mlynedd yn uwch yn y ddau gyfnod.

**Tueddiadau posibl yn y dyfodol**

- Mae'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf (cyn y Cyfrifiad, yn seiliedig ar 2018) yn parhau'r duedd gyffredinol yn y boblogaeth wrywaidd a benywaidd a welwyd mewn amcangyfrifon canol blwyddyn i'r pwynt hwnnw, sydd i'w ddisgwyl o ystyried bod yr amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiadau - gan ddefnyddio'r pum mlynedd o ddata ar enedigaethau, marwolaethau a mudo yn bennaf rhwng 2013 a 2018.
- O ganlyniad, yn yr amcanestyniadau hyn, mae cyfradd y cynnydd yn y boblogaeth ar gyfer Abertawe yn gwahaniaethu yn ôl rhyw, gyda thwf rhagamcanol ymhlith gwrywod o 4,800 (+3.9%) rhwng 2018 (y flwyddyn sylfaen) a 2028, ond twf rhagamcanol is yn nifer y benywod (+3,100 neu 2.5%).
- Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar set o dybiaethau sy’n defnyddio amcangyfrifon a thueddiadau cyn Cyfrifiad 2021. Mae'r darlun yn debygol o newid yn dilyn cyhoeddi'r amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig a'r amcanestyniadau poblogaeth newydd a fydd yn cynnwys canlyniadau Cyfrifiad 2021.

**Casgliadau**

- Yn Abertawe, mae poblogaethau gwrywod a benywod yn gyffredinol yn parhau i fod mewn cydbwysedd, ond gyda'r cynnydd net bach yn y boblogaeth a amcangyfrifir dros y deng mlynedd hyd at 2022 i'w briodoli i gynnydd ychydig yn fwy yn nifer y gwrywod na benywod.
- Mae cymarebau gwrywod i fenywod yn Abertawe yn newid ar wahanol gyfnodau bywyd, gyda mwy o wrywod na benywod yn Abertawe yn y grŵp 0-15 oed, rhaniad cyfartal i bobl 16-64 oed (yn gyffredinol), a'r gwrthwyneb (mwy o fenywod na gwrywod) ar gyfer y grŵp 65 oed ac yn hŷn, sy'n dod yn fwy amlwg fyth yn 85+ oed. Adlewyrchir hyn yn gyffredinol ar draws y wlad.

## 9. Cyfeiriadedd rhywiol

*Pa un ai a yw atyniad rhywiol unigolyn tuag at eu rhyw eu hunain, y rhyw arall neu’r ddau ryw. (EHRC)*

**Ffynonellau data**

- Term hollgynhwysol yw cyfeiriadedd rhywiol sy'n cynnwys hunaniaeth, atyniad ac ymddygiad rhywiol. Mae'n farn oddrychol ohonoch chi'ch hun a gall newid dros amser ac mewn cyd-destunau gwahanol. Yn 2018, newidiodd safon gytûn Gwasanaeth Ystadegau'r Llywodraeth (GYLl) ar gyfer adrodd ar ystadegau ar gyfer y pwnc hwn y derminoleg a argymhellwyd o "hunaniaeth rywiol" i "gyfeiriadedd rhywiol".
- Tan yn ddiweddar, ni chynhyrchwyd data lleol ar gyfeiriadedd neu hunaniaeth rywiol fel mater o drefn. Cyhoeddir amcangyfrifon sy'n seiliedig ar arolygon o gyfeiriadedd rhywiol ym mhoblogaeth aelwydydd 16 oed ac yn hŷn yn flynyddol o Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) y SYG ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys ar gyfer Cymru, ond nid yw'r data ar gael ar gyfer ardaloedd lleol oherwydd meintiau samplu isel.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sawl asiantaeth ystadegol genedlaethol wedi gwneud gwaith i ystyried opsiynau ar gyfer gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol, yn amodol ar dderbynioldeb y cyhoedd, preifatrwydd, y baich a roddir ar ymatebwyr a materion ansawdd data.
- Dangosodd ymgynghoriad pwnc Cyfrifiad 2021 y SYG yn 2015 angen clir am wybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol yng Nghymru a Lloegr, i gefnogi gwaith ar ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau a chaniatáu i awdurdodau lleol fodloni a monitro eu gofynion o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Roedd y SYG wedi cynnwys y cwestiwn hwn yng Nghyfrifiad 2021: "Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?" Roedd yn cynnwys y categorïau ymateb canlynol: Syth neu heterorywiol; Hoyw neu lesbiaidd; Deurywiol; Cyfeiriadedd rhywiol arall (nodwch). Roedd y cwestiwn yn un gwirfoddol ac fe'i ofynnwyd i bobl 16 oed ac yn hŷn yn unig.
- Felly, roedd Cyfrifiad 2021 yn darparu'r ystadegau swyddogol cyntaf ar lefel leol yng Nghymru a Lloegr ynghylch cyfeiriadedd rhywiol pobl.

**Ystadegau allweddol**

- Ar y cyfan, roedd 92.2% o'r boblogaeth yn Abertawe sy'n 16 oed ac yn hŷn wedi ateb y cwestiwn cyfeiriadedd rhywiol yn y Cyfrifiad (Cymru 92.4%); Cymru a Lloegr 95.0%). Nifer y bobl yn y categori ymateb "Heb ateb" yn Abertawe oedd 15,414 (7.8% o'r cyfanswm).
- Ar y cyfan, atebodd 175,739 o bobl yn Abertawe (88.8% o'r holl bobl 16 oed ac yn hŷn) "Syth neu Heterorywiol" (Cymru a Lloegr a Chymru, 89.4%).
- Roedd cyfanswm o 6,704 o bobl (3.4% o'r holl bobl 16 oed ac yn hŷn) yn Abertawe'n uniaethu â chyfeiriadedd LHD+ ("Hoyw neu Lesbiaidd", "Deurywiol" neu "Cyfeiriadedd rhywiol arall”). Dangosir fersiwn lawn o'r data hwn, gan gynnwys categorïau ymateb ar wahân ynghyd â chymariaethau cenedlaethol, yn nhabl 9.
- Roedd tua 76,900 o bobl 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru, a 1,536,600 o bobl yng Nghymru a Lloegr yn nodi bod ganddynt gyfeiriadedd LHD+ yng Nghyfrifiad 2021.

**Tabl 9**: Poblogaeth 16 oed ac yn hŷn yn ôl cyfeiriadedd rhywiol

| Yr holl breswylwyr arferol 16 oed ac yn hŷn: | **Abertawe** | **% o'r cyfanswm** | **% Cymru** | **% Cymru a Lloegr** |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 175,739 | 88.8 | 89.4 | 89.4 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 3,145 | 1.6 | 1.5 | 1.5 |
| Deurywiol/Bi | 2,972 | 1.5 | 1.2 | 1.3 |
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 587 | 0.3 | 0.3 | 0.3 |
| Heb ateb | 15,414 | 7.8 | 7.6 | 7.5 |
| *Cyfanswm* | *197,857* | *100* | *100* | *100* |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.

**Amrywiadau lleol**

- Mae'r lefel isaf o ddata ar gyfeiriadedd rhywiol o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG). Oherwydd y niferoedd bach o bobl nad yw eu cyfeiriadedd rhywiol rhywiol yn "Syth neu heterorywiol", prin yw'r opsiynau ar gyfer dadansoddi categorïau ymateb penodol yn ystyrlon ar y lefel hon o ddaearyddiaeth, gan gynnwys unrhyw ddadansoddiad amlamryweb ar lefel leol. Yn ogystal â hyn, gan fod y cwestiwn yn wirfoddol, dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol o wahaniaethau mewn cyfraddau ymateb wrth gymharu rhwng gwahanol feysydd.
- Yn Abertawe, mae cyfran yr oedolion 16+ oed a nodwyd bod ganddynt gyfeiriadedd LHD+ ar ei uchaf yn ACEHG Brynmill (8.8%), Canol Abertawe (7.8%) ac Uplands (6.5%). Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021, roedd y gyfran hon yn 3% neu'n is mewn 20 o'r 30 ACEHG yn Abertawe.
- Yr ACEHG yn Abertawe gyda'r cyfrannau uchaf o bobl nad oeddent yn ateb y cwestiwn hwn oedd Glandŵr (11.2%), Brynmill a Sgeti (ill dau yn 11.1%).

**Casgliadau**

- Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd Cyfrifiad 2021 yn galluogi gwybodaeth ystadegol am gyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf; Felly, ar hyn o bryd mae'n anodd asesu newid ystadegol dros amser a thueddiadau'r dyfodol ar gyfer y pwnc hwn.
- Mae'r SYG yn bwriadu cynnal a chyhoeddi dadansoddiad pellach ar bynciau cyfeiriadedd rhywiol ym mlwyddyn gyntaf rhaglen ddadansoddi Cyfrifiad 2021 a'r blynyddoedd canlynol, yng ngoleuni adborth defnyddwyr ac ymchwil a phrofi data pellach.